

Pecyn Cyhoeddus



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

12 Hydref 2023

Dwynwen Jones

Annwyl Syr / Fadam

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn Hybrid - Siambr y Cyngor - Penmorfa/drwy fideo gynadledda, Dydd Iau, 19 Hydref 2023 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:

- 1. I ethol is-Gadeirydd ar gyfer gweddill blwyddyn fwrdeistrefol 2023.2024 i gychwyn yn syth**
- 2. Ymddiheuriadau a Materion Personol**
- 3. Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswilt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**
- 4. Adroddiad Blynyddol Mynd i'r Afael a Chaledi 2022.2023 (Tudalennau 3 - 22)**
- 5. Adroddiad Blynyddol Sylwadau o Ganmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth 2022.2023 (Tudalennau 23 - 62)**
- 6. Diweddariad ar Gontract Bancio'r Cyngor (Tudalennau 63 - 64)**
- 7. Ystyried Blaenraglen Waith y Pwyllgor (Tudalennau 65 - 70)**
- 8. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion. (Tudalennau 71 - 78)**

Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb

Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Lowri Edwards". The signature is written in a cursive, flowing style.

Miss Lowri Edwards

Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd

**At: Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau
Corfforaethol**

Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r: Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol

Dyddiad y Cyfarfod: 19/10/2023

Teitl: Adroddiad Blynyddol y Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi 2022-23

Pwrpas yr adroddiad: Cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed o ran Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion (2020-23).

Rheswm y mae'r Pwyllgor Craffu wedi gofyn am y wybodaeth hon:

Er mwyn monitro'r cynnydd a wnaed i fynd i'r afael ag effeithiau tlodi ar drigolion Ceredigion.

Cefndir:

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r camau a gymerwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion wrth ddarparu ymateb cydgysylltiedig i'r risg gynyddol o galedi yng Ngheredigion.

Dyma'r adroddiad olaf am y 'Strategaeth Mynd i'r Afael â Thlodi' sy'n dod i ben fel strategaeth ar wahân. Wrth symud ymlaen, cytunwyd y byddai is-grŵp Tlodi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn sicrhau bod mynd i'r afael â thlodi yn fater trawsbynciol ar draws yr holl feysydd gwaith wrth gyflawni Cynllun Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion 2023-28. Mae cynllun gwaith yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd i'n helpu ni i gyflawni hyn.

Roedd tri amcan allweddol Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi Ceredigion 2020-2023 fel a ganlyn:

1. Ar y cyd ag asiantaethau sy'n bartneriaid, dod i ddeall effaith esblygol COVID-19 ar galedi yng Ngheredigion, a hynny drwy goladu a dadansoddi data.
2. Cydlynu ac atgyfnerthu gwaith ar y cyd ag asiantaethau sy'n bartneriaid i hyrwyddo a manteisio ar yr holl gymorth sydd ar gael..
3. Nodi bylchau o ran y cymorth sydd ar gael ac o ran anghenion caledi wrth iddynt newid er mwyn llunio ymyriadau cynnar effeithiol a fydd yn sicrhau bod unigolion a chymunedau'n fwy cydnerth wrth inni ddygymod ag effaith COVID-19.

Y Sefyllfa Bresennol:

Rydym wedi cyflawni amcanion y Strategaeth. Mae'r is-grŵp Tlodi wedi cyfarfod yn rheolaidd ac mae wedi trafod ystod eang o faterion i'n helpu i ddeall effaith caledi ar bobl Ceredigion. Mae'r dangosfyrddau data a ddatblygwyd i gefnogi'r gwaith hwn yn cael eu defnyddio'n eang gan bartneriaid ac maent wedi'u cydnabod ledled Cymru fel enghraifft o arfer da.

Tudalen 4

Mae cynllun gweithredu'r Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi a'r adroddiadau rheolaidd wedi ein helpu i gydlynu ein camau gweithredu.

Mae'r dudalen Costau Byw ar wefan y Cyngor a'r daflen Costau Byw, a bostiwyd i holl godau post Ceredigion yn ystod gaeaf 2022, wedi bod o gymorth i hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael. Mae'r bylchau mewn cymorth wedi'u nodi ac, er nad oeddem yn gallu mynd i'r afael â phob un o'r rhain, rydym wedi gallu ymateb i rai ohonynt, e.e. sefydlwyd rhwydwaith o 54 o Fannau Croeso Cynnes a oedd yn cynnig lle cynnes a chyfeillgar i gymunedau ddod at ei gilydd yn ystod gaeaf 2022.

Mae'r adroddiad llawn am y cyfnod rhwng Mawrth 2022 ac Ebrill 2023 ynghlwm.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

Oes Aseiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam

Nac oes, adroddiad cynnydd yw hwn ac nid yw'n ymwneud â newid mewn polisi / gwasanaeth.

Crynodeb o'r Aseiad Effaith Integredig:

Hirdymor: Ddim yn berthnasol

Cydweithio: Ddim yn berthnasol

Cynnwys: Ddim yn berthnasol

Atal: Ddim yn berthnasol

Integreiddio: Ddim yn berthnasol

Argymhelliad:

Derbyn a chymeradwyo Adroddiad Blyneddol y Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi 2022-23.

Rheswm dros y penderfyniad:

Mae'r adroddiad yn ddisgrifiad cywir o'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wrth fynd i'r afael ag effaith tlodi ar drigolion Ceredigion.

Enw Cyswllt: Cathryn Morgan

Swydd: Rheolwr Cydraddoldeb a Chynhwysiant

Dyddiad yr adroddiad: 27/09/2023



STRATEGAETH MYND I'R AFAEL Â CHALEDI CEREDIGION 2020 - 2023

ADRODDIAD CYNNYDD MAWRTH 2023

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010	4
Colofn 1: Costau Byw Hanfodol.....	5
Colofn 2: Llesiant Corfforol ac Emosiynol.....	8
Colofn 3: Cymunedau Cydnerth.....	10
Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym - a ydym wedi gwneud gwahaniaeth? .	13
Credyd Cynhwysol.....	13
Nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau.....	14
Cyflogaeth Ieuencid.....	14
Enillion Blynnyddol Canolrifol yn ôl Cartref a Gweithle	15
Llesiant Corfforol ac Emosiynol	15
Tlodi Plant.....	15
Y Casgliad a'r Heriau sy'n Parhau	16
Y Camau Nesaf	17
Atodiad A: Y Partneriaid sy'n Cyfrannu	18

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r camau a gymerwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion i fynd i'r afael â chaledi yng Ngheredigion yn sgil Covid-19 ac, yn fwy diweddar, y cynnydd mewn costau byw. Mae'n amlinellu'r gwaith a gyflawnwyd gan is-grŵp Tlodi Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion yn 2022-23 i sicrhau'r gefnogaeth fwyaf posibl i'r rhai hynny sy'n wynebu caledi.

Dyma'r adroddiad blynyddol olaf ynghylch [Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi 2020-23](#). Ers mis Ebrill 2023, mae mynd i'r afael â chaledi yng Ngheredigion yn un o themâu trawsbynciol Cynllun Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion ar gyfer 2023-28. Bydd y dull newydd hwn o weithredu yn golygu y bydd modd i bob agwedd ar raglen waith y Bwrdd dros y bum mlynedd nesaf ganolbwyntio ar dlodi.

Mae tri amcan allweddol Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi Ceredigion fel a ganlyn:

- Ar y cyd ag asiantaethau sy'n bartneriaid, **dod i ddeall** effaith esblygol COVID-19 ar galedi yng Ngheredigion, a hynny drwy goladu a dadansoddi data.
- Cydlynu ac **atgyfnerthu gwaith ar y cyd** ag asiantaethau sy'n bartneriaid i hyrwyddo a manteisio ar yr holl gymorth sydd ar gael.
- Nodi **bylchau** o ran y cymorth sydd ar gael ac o ran anghenion caledi wrth iddynt newid er mwyn llunio ymyriadau cynnar effeithiol a fydd yn sicrhau bod unigolion a chymunedau'n fwy cydnorth wrth inni ddygymod ag effaith COVID-19.

Mae amrywiaeth o bartneriaid a thimau yn y sector cyhoeddus yn cyflawni'r gwaith a nodir yn y cynllun gweithredu a gallwch chi weld rhestr ohonynt yn Atodiad A.

Mae'r Cynllun Gweithredu wedi'i rannu'n 3 colofn ar wahân:



Hoffem gydnabod yr ymrwymiad a'r gefnogaeth y mae cydweithwyr a phartneriaid wedi'u dangos, a hoffem ddiolch iddynt am barhau i gydnabod pwysigrwydd cydweithio er mwyn mynd i'r afael â chaledi yng Ngheredigion.

Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010

Mae Adran 2 Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau Cymru i baratoi a chyhoeddi strategaeth a fydd yn cyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru. Y nodau cyffredinol i gyfrannu at ddileu tlodi yw:

- cynyddu incwm i aelwydydd sy'n cynnwys plant.
- sicrhau nad yw plant wedi'u hamddifadu'n sylweddol.
- hybu a hwyluso cyflogaeth am dâl i rieni plant.
- darparu i rieni plant y sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflogaeth am dâl.
- lleihau anghydraddoldebau mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng plant.
- cefnogi rhianta plant.
- lleihau anghydraddoldebau mewn iechyd rhwng plant a rhwng rhieni plant.
- sicrhau bod pob plentyn yn tyfu i fyny mewn tai gweddus.
- sicrhau bod pob plentyn yn tyfu i fyny mewn cymunedau diogel a chydlynus
- lleihau anghydraddoldebau wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, gweithgareddau chwaraeon a hamdden rhwng plant a rhwng rhieni plant.
- cynorthwyo pobl ifanc i gymryd rhan yn effeithiol mewn addysg a hyfforddiant.
- cynorthwyo pobl ifanc i fanteisio ar gyfleoedd i gael cyflogaeth.
- cynorthwyo pobl ifanc i gymryd rhan yn effeithiol ac yn gyfrifol ym mywyd eu cymunedau.

Nod y Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi yw mynd i'r afael â'r nodau hyn. Mae'r cynnydd a wneir yn cael ei fonitro gan Is-grŵp Tlodi Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion sy'n cwrdd bedair gwaith y flwyddyn.

Mae'r Fforwm Darparwyr Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc yn craffu ar faterion sy'n ymwneud â Thlodi Plant. Mae'r Fforwm hwn yn cwrdd wythnos cyn cyfarfodydd Is-grŵp Tlodi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fel y gall uwchgyfeirio unrhyw faterion sy'n codi i'r Is-grŵp Tlodi ar unwaith.

Colofn 1: Costau Byw Hanfodol

Cafodd cymorth ariannol ei gynnig yn uniongyrchol i deuluoedd ac unigolion a oedd yn ei chael hi'n anodd. Roedd hyn yn cynnwys rhywfaint o gymorth o ran hyfforddiant a chyflogaeth, ond o ystyried y costau byw cynyddol, canolbwyntiwyd ar sicrhau bod pobl yn derbyn y cymorth yr oedd ganddynt hawl iddo. Mae'r adran isod yn rhoi rhai enghreifftiau o'r gwaith hwn.

Porth Cymorth Cynnar: Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar

Bu'r tîm Gofalwyr a Chymorth Cymunedol yn gweithio gyda 3,171 o bobl yn 2022-23. Cynigiwyd sesiynau 'galw heibio' ychwanegol gan y Cysylltwyr Cymunedol mewn mwy o lefydd ar draws y Sir fel y gallai mwy o bobl gael gafael ar gyngor a chefnogaeth.

Dosbarthodd y Cysylltwyr Cymunedol 300 o stribedi atal drafft, 1,500 metr o ffoil sy'n adlewyrchu'r gwres a ddaw o reiddiaduron, 60 o fylbiau hir oes ar gyfer arbed ynni, 50 o blancedi a 900 o becynnau o hadau.

Y Budd-dal Tai a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

Ar gyfartaledd, roedd y ceisiadau newydd ar gyfer hawlio Budd-dal Tai a Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn cael eu prosesu o fewn 19 diwrnod. Mae 5,482 o bobl yn derbyn y budd-daliadau hyn ar hyn o bryd.

Cafodd 7,547 o daliadau o dan Gynllun Tanwydd y Gaeaf a 21,367 o daliadau o dan y cynllun Costau Byw eu gwneud i gartrefi sy'n gyfanswm o £4.7 miliwn. Rhoddwyd gwerth £322,971 o Daliadau Tai Dewisol i'w cynorthwyo â'u costau rhent a diogelu eu tenantiaethau yn ystod 2022-23.

Porth Gofal: Gwasanaethau Tai

Dyweddodd 12% o'r bobl a ddaeth i gysylltiad â'r Tîm Digartrefedd mai 'Pryderon Ariannol' oedd un o'u rhesymau dros ofyn am gymorth. Llwyddwyd i atal 67% o'r aelwydydd a gefnogwyd gan y tîm rhag bod yn ddigartref.

Ym mis Hydref 2022, lansiwyd y cynllun ECO4, a oedd wedi'i anelu at aelwydydd incwm isel, unigolion bregus a'r rhai sy'n byw mewn tloedi tanwydd am nad oedd eu cartrefi yn effeithlon o ran ynni.

Er y bu cynnydd sylweddol yn y gyllideb i ddarparu tai cymdeithasol fforddiadwy, bu hefyd anawsterau wrth chwilio am gontractwyr i wneud y gwaith. Mae pryderon hefyd y bydd effaith y ffosffadau yn afon Teifi yn golygu y bydd oedi o ran ceisiadau cynllunio newydd.

Y Gymdeithas Gofal

Mae chwyddiant a phrisiau ynni yn achosi pryderon newydd i denantiaid bregus sydd angen cefnogaeth. Mae'r ffaith nad yw pobl yn ymwybodol o gynlluniau i'w cynorthwyo â'u costau byw yn broblem fawr. Mae diffyg llety fforddiadwy yng Ngheredigion yn creu problemau i ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n chwilio am

Tudalen 10

opsiynau wrth iddynt adael llety dros dro neu lety argyfwng. Mae'r Ddeddf Rhentu Cartrefi sy'n ddeddfwriaeth newydd wedi cymhlethu'r materion hyn ymhellach.

Area 43

Mae Caffi Ieuencid Area 43 sef Depot bellach ar agor yn Aberteifi. Yn y fan hon, gall pobl ifanc gael gafael ar fwyd a lluniaeth am bris rhatach. Mae lleoliadau sy'n cynnig cyflogaeth am dâl ar gael yn ogystal â hyfforddiant am ddim i bobl ifanc rhwng 14 a 25 oed mewn amrywiol feysydd gan gynnwys paratoi bwyd, maeth, cyrsiau hylendid bwyd ac addysg bersonol a chymdeithasol mewn amgylchedd gwaith go iawn.

Darperir cefnogaeth rithwir a chefnogaeth wyneb yn wyneb lle gall pobl ifanc gael cymorth i gyllidebu, help i wneud y mwyaf o'u hincwm, gwybodaeth a fydd yn eu cyfeirio at wasanaethau arbenigol, cefnogaeth o ran gwneud ceisiadau am grantiau caledi, sgiliau byw'n annibynnol a chymorth i sicrhau cyflogaeth. Cafodd 399 o bobl ifanc a oedd yn wynebu caledi ariannol eu cefnogi yn 2022-23.

Rhwydwaith Canolfannau i Deuluoedd Ceredigion

Cefnogodd y rhwydwaith 860 o deuluoedd. Cyfeiriwyd 188 o deuluoedd at eraill am gymorth pellach lle cawsant fwndeli i fabanod, pecynnau dillad, bwyd a llyfrau am ddim. Hefyd, cawsant gyngor gan y cynllun cartrefi cynnes NYTH, Home Start, Cymorth ar y Fron, Cymorth ar Bopeth, Dŵr Cymru, Gofalwyr CREDU, Y Tîm o Amgylch y Teulu, Ymwelwyr Iechyd a Mind.

Roedd Mannau Croeso Cynnes ar gael ym mhob un o'r chwe chanolfan lle'r oedd bwyd/byrbrydau poeth yn cael eu darparu. Gwnaeth 177 o deuluoedd yn ogystal ag unigolion eraill o'r gymuned ehangach elwa o'r ddarpariaeth hon.

Ysgolion

Cymeradwyodd y Cabinet y [Strategaeth Tegwch ac Amddifadedd](#) ym mis Chwefror 2023. Mae'r Strategaeth hon yn cynnig arweiniad i ysgolion sy'n cefnogi pobl ifanc dan anfantais ac mae'n cyd-fynd â'r gwaith ehangach sy'n cael ei wneud i roi mwy o gefnogaeth i'n dysgwyr mwy difreintiedig. Mae neges allweddol wrth wraidd hyn – yn aml, mae angen mwy o gefnogaeth ar ddysgwyr difreintiedig i gael yr un cyfleoedd â'u cyfoedion.

Gofal Plant

Mae'r sefyllfa bresennol yn parhau i effeithio ar y sector. Mae'r costau ynni yn uchel ac nid oes darpariaeth o ran clybiau ar ôl ysgol ym Mhenparcau nac yn Aberteifi oherwydd materion recriwtio. Mae darpariaeth fel hyn yn hanfodol i rieni sy'n dymuno cael mynediad i gyflogaeth a hyfforddiant. Mae nifer y llefydd gofal plant cofrestredig wedi gostwng 158 o lefydd dros y 12 mis diwethaf.

Fodd bynnag, mae gofal plant am ddim ar gael i blant rhwng 2 a 4 oed mewn ardaloedd Dechrau'n Deg a bydd hyn yn awr yn cael ei ymestyn i fwy o ardaloedd. Cafodd 90 o blant ychwanegol fudd o ddarpariaeth Allgymorth Dechrau'n Deg a gwnaeth 354 o blant elwa o'r Cynnig Gofal Plant.

Hyfforddiant a chyflogaeth

Mae'r Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, y Gwasanaeth Ieuencid, Gyrfa Cymru a'r Ganolfan Byd Gwaith i gyd yn aelodau o'r panel NEET (pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant). Cynigiwyd sesiynau blasu mewn gwahanol leoliadau gan gynnwys sesiynau gwaith coed, mecaneg, trin gwallt, harddwch a phlymio. Enillodd 64% o'r dysgwyr a gefnogir gan y Porth Cymorth Cynnar gymwysterau ar ôl gwneud hyfforddeiaethau ac enillodd 70% o ddysgwyr gymwysterau ar ôl gwneud prentisiaethau.

Mae gwasanaethau'r Ganolfan Byd Gwaith bellach yn gwbl weithredol ac mae Hyfforddwyr Gwaith yn cynnig cymorth wyneb yn wyneb ar bob safle.

Cyngor ar Bopeth

Mae apwyntiadau un-i-un ar gyfer cleientiaid sy'n gofyn am gyngor manwl drwy alwadau ffôn a galwadau fideo yn parhau. Mae apwyntiadau personol ar gael yn y Borth, Aberystwyth, Penparcau, Llanbedr Pont Steffan ac Aberteifi.

Yn dilyn cais llwyddiannus i'r Loteri Genedlaethol, cynyddodd Cyngor ar Bopeth eu darpariaeth wyneb yn wyneb mewn mannau ledled y sir gan gynnwys sesiynau galw heibio rheolaidd yn ogystal â digwyddiadau pwrpasol ar gyfer grwpiau cymunedol a sesiynau galw heibio dros Zoom. Y dymuniad yw medru cynnig cymorth trwy fideo-gynadledda i gleientiaid bregus sy'n gaeth i'w cartrefi, ond nid ydynt eto wedi gallu gwneud hyn gan fod angen cymorth ar y cleientiaid yn eu cartrefi ac nid yw hyn ar gael.

Age Cymru Dyfed

Mae dau Swyddog Gwybodaeth a Chyngor rhan-amser, sydd wedi'u lleoli yn Aberystwyth, yn cynnig cymorth a chyngor i bobl i weld a ydynt yn gymwys i gael budd-daliadau llesiant ac maent yn dangos sut y gallant gael mynediad atynt. Hefyd, maent yn cynnig Gwasanaeth Cymorth Dementia penodol y mae modd i bobl gael mynediad ato trwy Wasanaeth Cymorth Tai'r Cyngor. Mae apwyntiadau ar gael yn y swyddfa, yn rhithiol a thros y ffôn. Mewn amgylchiadau eithriadol, gellir trefnu ymweliadau â'r cartref. Mae'r staff yn canfod nad yw'r genhedlaeth y maen nhw'n ei chefnogi yn codi llais nac yn cwyno. Serch hynny, mae mawr angen help arnynt fel y gallant fyw bywydau cyfforddus a phleserus.

Ers mis Ebrill 2022 mae'r tîm wedi delio â dros 690 o atgyfeiriadau gan gynorthwyo trigolion Ceredigion i gael mynediad at oddeutu £760,000 o Gymorth Lles nad oedd wedi'i hawlio.

Colofn 2: Llesiant Corfforol ac Emosiynol

Cynigiwyd cymorth o ran llesiant corfforol ac emosiynol i deuluoedd ac unigolion a allai fod yn wynebu straen, blinder a phryder. Roedd hyn yn cynnwys camau ataliol, megis dosbarthiadau ymarfer corff, cyfarfodydd cymunedol, seibiant ar gyfer Gofalwyr di-dâl, yn ogystal â chynlluniau hirdymor ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol.

Rhwydwaith Canolfannau i Deuluoedd Ceredigion

Mwynhaodd 860 o deuluoedd amrywiaeth o weithgareddau gyda'r nod o wella llesiant corfforol ac emosiynol. Roedd y rhain yn cynnwys chwarae blêr, chwarae synhwyraidd, zwmbini, sesiynau coginio, garddio, digwyddiadau pontio'r cenedlaethau, celf gymunedol, ysgol theatr, chwarae awyr agored, celf a chreffft a barbeciws. Mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant ynghylch Diogelu, Ymwybyddiaeth o Hunanladdiad ac Iechyd Meddwl Cymorth Cyntaf.

DASH Ceredigion

Mae DASH yn cynnig cyfleoedd o ran gofal plant a chyfleoedd chwarae i blant/pobl ifanc anabl yn ogystal â rhoi seibiant i deuluoedd. Gan fod prinder darpariaeth gofal plant y tu allan i'r ysgol yn ystod y pandemig, cafwyd gostyngiad mawr yn y defnydd a wnaed o'r gefnogaeth yr oeddent yn ei chynnig. Mae cynlluniau chwarae yn ystod gwyliau'r ysgol a phenwythnosau i ffwrdd bellach ar gael ond mae'r ceisiadau a ddaw oddi wrth glybiau y tu allan i'r ysgol am gymorth 'help llaw' drwy'r cynllun Ymuno yn parhau'n isel.

Porth Cymorth Cynnar: Cymorth ac Atal

Cynigiwyd 88 o weithdai i bobl ifanc 16 oed a throsodd. Roedd y gweithdai hyn yn cynnwys gwirfoddoli yn y gymuned, bowlio dan do, garddio a diwylliant a threftadaeth Cymru.

Gwnaeth llesiant a hyder 125 o bobl ifanc a oedd yn gweithio gyda gweithiwr ieuenctid wella. Un enghraifft o hyn oedd person ifanc nad oedd yn barod i adael ei gartref a aeth ar daith gerdded llesiant gyda gweithiwr ieuenctid.

Gwnaeth y ddarpariaeth ieuenctid symudol ymgysylltu â 10 cymuned a 176 o bobl ifanc. Darparwyd sesiynau pêl-droed wythnosol am ddim ar y cyd â Heddlu Dyfed-Powys a Sefydliad Pêl-droed Abertawe. Yn sgil hyn, cafodd un person ifanc ei enwebu'n llysgennad ifanc oherwydd ei ymrwymiad.

Area 43

Comisiynodd clystyrau meddygon teulu gogledd a de Ceredigion wasanaeth cwnsela ar gyfer pobl ifanc rhwng 13 a 30 oed. Defnyddiodd 193 o bobl ifanc yng ngogledd Ceredigion a 6 o bobl ifanc yn ne Ceredigion y gwasanaeth yn ystod 2022-23. Nid yw'r gwasanaeth hwn bellach yn cael ei ariannu ac mae wedi dod i ben.

Hefyd, gwnaeth Area 43 ddarparu gwasanaeth cymorth emosiynol i 57 o bobl ifanc o'u canolfan yn Aberteifi.

Porth Cymorth Cynnar, Canolfannau Lles

Mae'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff (NERS) bellach yn brysur iawn - derbyniwyd 1,011 o atgyfeiriadau yn 2022-23. Rhoddir sylw i bob atgyfeiriad, er nad yw pob preswlydd yn penderfynu cymryd rhan. Cwblhaodd 343 o gleientiaid y rhaglen 16 wythnos yn ystod y flwyddyn.

Mae'r cynllun hwn yn un o nifer o ddsbarthiadau a gweithgareddau ymyrraeth iechyd a gynigir. Mae'r ddarpariaeth arall yn cynnwys Teithiau Cerdded a 'Fit4Life'. Cynigiwyd 424 o ddsbarthiadau a gweithgareddau bob mis yng ngogledd, canol a de'r sir. Mae'r cleientiaid ledled Ceredigion wrth eu bodd â'r holl raglenni.

Porth Gofal

Roedd y tîm Therapi Galwedigaethol yn gobeithio cynnal mwy o asesiadau fel y gellid darparu cyfarpar priodol a chymorth therapi i bobl. Mae hyn yn lleihau'r pwysau ar y Gofalwr di-dâl gan fod y sawl sy'n derbyn gofal yn dod yn fwy annibynnol. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn wynebu heriau sylweddol o ran staffio sydd wedi arwain at restr aros.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a'r Porth Cymorth Cynnar: cefnogaeth i ofalwyr

Ymatebodd y tîm Gofalwyr a Chymorth Cymunedol i 3,538 o ymholiadau. Roedd yr ymholiadau hyn yn cynnwys ceisiadau am gymorth, ceisiadau am daliadau Llywodraeth Cymru i ofalwyr di-dâl sydd ar incwm isel a chardiau Gofalwyr Ceredigion sy'n caniatáu i ofalwyr di-dâl fod yn aelodau am ddim o ganolfannau hamdden ac i gael gostyngiadau ledled Ceredigion.

Yn ogystal â hyn, deliodd y tîm â 621 o geisiadau am gyllid o'r gronfa Gofalwyr. Roedd 1,970 o Ofalwyr di-dâl wedi'u cofrestru gyda'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr ym mis Mawrth 2023.

Porth Cynnal – Gwasanaethau Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau

Mae'r capasiti o ran Ymarferwyr Iechyd Meddwl Cymeradwy wedi cynyddu ond nid yw'r tîm gwaith cymdeithasol yn llawn eto. Mae'r capasiti o ran cwnsela mewn ysgolion wedi cynyddu ond mae'r galw yn uchel. Mae'r tîm Camddefnyddio Sylweddau hefyd wedi tyfu ac mae gan y tîm bellach 2 weithiwr newydd sy'n targedu digartrefedd a materion sy'n codi'n gyson. Bydd y timau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl yn cael eu hintegreiddio ym mis Ebrill 2023.

Polisi a Pherfformiad

Cyhoeddwyd Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion ym mis Awst 2022. Mae'r Asesiad wedi dweud llawer wrthym am lesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol pobl a chymunedau yng Ngheredigion. Bydd yr Asesiad yn awr yn cael ei ddefnyddio wrth baratoi Cynllun Llesiant Lleol 2023-28 a gall sefydliadau gyfeirio ato wrth baratoi ceisiadau am gyllid neu ei ddefnyddio i ddangos bod angen canolbwyntio ar feysydd penodol.

Fforwm Cymunedol Penparcau – yr Hwb

Mae'r Hwb yn gobeithio denu mwy o wirfoddolwyr i helpu gyda'r gwaith o ddsbarthu parseli bwyd ac i wneud gweithgareddau ehangach megis garddio a chasglu sbwriel. Yn ystod y pandemig, roedd parseli bwyd yn cael eu dosbarthu bob dydd ond erbyn hyn maent yn cael eu dosbarthu bob wythnos. Mae'r Hwb hefyd yn cynnig gwasanaeth Pryd ar Glud. Mae'r gwaith hwn yn helpu'r cydlynnydd i ddod i adnabod pobl yn well.

Mae rhai pobl yn parhau i deimlo'n ynysig. Nid yw rhai yn bwyta'n iawn neu nid oes ganddynt y cyfleusterau i goginio. Cynhaliwyd ymgynghoriad ym mis Ionawr / mis Chwefror er mwyn adolygu'r gwasanaethau a gynigir. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chynnwys mewn cais newydd am gyllid ac mae'n debygol y bydd y cais hwn yn canolbwyntio ar lesiant meddyliol a mynd i'r afael ag unigrwydd.

Coleg Ceredigion

Gall dysgwyr gael mynediad at ystod o wasanaethau cymorth personol, gan gynnwys mentora, cwnsela, a chymorth 24/7. Mae'r systemau ar-lein ar gyfer cymorth personol bellach wedi'u cynnwys yn rhaglen y coleg a bydd hyn yn hyrwyddo llesiant y dysgwyr.

Age Cymru Dyfed

Mae'r Prosiect Befriending Life Links a'r Gwasanaeth Cymorth i Gyn-filwyr yn cynnig cefnogaeth i'r rhai sy'n teimlo'n unig neu'n ynysig. Mae Befriending Life Links yn helpu pobl i feithrin hyder ac ailymuno â'u cymunedau. Hefyd, mae'n helpu i ffurfio Grwpiau Cymdeithasol yn lleol ond mae'n camu'n ôl wedi iddynt gael eu sefydlu. Mae'r swyddogion sy'n cynnig cymorth i gyn-filwyr yn darparu cefnogaeth un i un i gyn-filwyr oedrannus ar draws y sir.

Colofn 3: Cymunedau Cydnerth

Yn 2022-23, dechreuodd y byd ddychwelyd i ryw fath o normalrwydd ar ôl Covid wrth i wasanaethau fynd yn ôl i ddarparu cefnogaeth wyneb yn wyneb yn bennaf. Fodd bynnag, mae pawb bellach yn dibynnu mwy ar gysylltedd digidol ond ni all pawb gael mynediad at hyn. Mae'r adran isod yn tynnu sylw at rywfaint o'r gwaith a wneir i sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad at y gwasanaethau y mae eu hangen arnynt.

Porth Cymorth Cynnar: Ymyrraeth Gynnar a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO)

Yn ystod y pandemig, datblygwyd rhestrau i nodi'r gefnogaeth gymunedol a oedd ar gael ar draws y sir gyfan a bu hyn o gymorth i nodi'r ardaloedd lle nad oedd cefnogaeth yn bodoli. Mae'r cymorth a gynigir yn newid yn gyflym ac mae pobl bellach yn cael eu hannog i ddefnyddio Dewis Cymru ac 'Infoengine' i dynnu sylw at y gefnogaeth sydd ar gael. Ym mis Mawrth 2023, roedd gan Dewis 543 o

ddefnyddwyr cofrestredig yng Ngheredigion ac roedd 607 o adnoddau ar gael ar draws y Sir.

Yng Ngheredigion, ceir 6 banc bwyd a 2 grŵp sy'n darparu bwyd sydd dros ben ac mae modd i 98.9% o gartrefi'r sir fynd at y ddarpariaeth hon. Yr unig wardiau Cyngor Cymuned nad oes ganddynt fynediad at fanciau bwyd yn lleol yw Llandyfriog, Llanddewi Brefi, Tregaron ac Ystrad Fflur. Llwyddodd y banciau bwyd i ymdopi â'r galw cynyddol yn ystod y flwyddyn ond maen nhw'n ei chael hi'n anodd recriwtio gwirfoddolwyr.

Cyswllt Cwsmeriaid Cyngor Sir Ceredigion

Mae llyfrgelloedd Ceredigion bellach wedi ailagor yn llawn, ac mae'r llyfrgell deithiol yn ôl ar y ffordd. Mae cynlluniau ar y gweill i ddarparu mynediad i l-pads ar bob fan llyfrgell deithiol, ond nid yw hyn ar gael eto. Ailagorwyd y safleoedd gwasanaethau cwsmeriaid wyneb yn wyneb ym mis Ionawr 2023 am 5 diwrnod yr wythnos ond mae amseroedd agor y gwasanaeth ychydig yn hwyrach. Ddiwedd mis Mawrth 2023, nid oedd cyfleuster ar gael i dderbyn taliadau arian parod wyneb yn wyneb yn swyddfeydd y Cyngor. Serch hynny, roedd preswylwyr yn gallu parhau i wneud taliadau arian parod ym mhob Swyddfa Bost ac mewn siopau lle ceir 'Payzone'.

Rhwydwaith Canolfannau i Deuluoedd Ceredigion

Er bod dal angen gwella cyflymder y rhyngrwyd a sicrhau signal ffôn mwy dibynadwy mewn rhai ardaloedd gwledig, nid oes neb heb y rhyngrwyd o gwbl. Mae'r ddarpariaeth wyneb yn wyneb bellach ar gael ond mae'r cyfryngau cymdeithasol yn parhau i fod rhan annatod o gyfathrebu ag eraill. Mae'r teuluoedd yn ymateb yn dda i hyn ac maent yn cadw mewn cysylltiad â'i gilydd trwy sgysiau grŵp gan ddarparu cefnogaeth dda i'w gilydd. Hefyd, gallant anfon negeseuon yn unigol at y staff er mwyn cael cymorth.

Mae'r holl staff yn datblygu sgiliau digidol newydd yn barhaus, ac mae rhai wedi cael mynediad at hyfforddiant ffurfiol i gynyddu eu gwybodaeth yn y maes hwn.

Bwrdd Iechyd Hywel Dda: Partneriaethau, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Roedd y tîm Allgymorth Cymunedol wedi cysylltu â 5,259 o bobl. Roedd mwy na 50% o'r sgysiau yn ymwneud â mesurau atal, llesiant, atgyfeiriadau i roi'r gorau i ysmegu, cyngor am faeth a defnyddio gwasanaethau sgrinio. Bu'r tîm hefyd yn cynorthwyo 538 o ffoaduriaid o Wcráin, 229 o unigolion sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr a 370 o bobl a oedd yn ddigartref neu mewn sefyllfa fregus o ran eu cartref.

Bu iddynt hefyd weithio gyda grwpiau cymunedol i sefydlu teithiau cerdded llesiant lleol ar gyfer ein cymunedau amrywiol fel y gallent wneud ymarfer corff, creu cyfeillgarwch ac ymwneud â'r bwrdd iechyd mewn ffordd anffurfiol. Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth 164 o bobl gymryd rhan.

Porth Cymorth Cynnar: Llesiant a Dysgu Cymunedol

Mae Dysgu Bro yn darparu cyrsiau mewn mwy o leoliadau cymunedol, gan gynnwys Bronant, Rhydypennau, Cwmystwyth a Phontarfynach. Mae llawer o'r sesiynau yn rhad ac am ddim. Mae offer TGCh ar gael i bob dysgwr newydd.

Y Gymdeithas Gofal

Mae Cymdeithas Gofal Cymru yn gweithio gyda Chymunedau Digidol Cymru/ CWMPAS gyda'r nod o fynd i'r afael ag allgáu digidol yn lleol a gwella hyder digidol trwy hyfforddiant sgiliau hanfodol a sesiynau diogelwch ar-lein. Mae cysylltedd yn parhau'n broblem ond trwy ddatblygu hybiau, fel Canolfan Dulais yn Llanbedr Pont Steffan, gall pobl ddefnyddio cyfrifiaduron a mynd ar-lein.

Fforwm Cymunedol Penparcau

Mae rhai pobl yn ymweld â'r Hwb ym Mhenparcau i ddefnyddio'r Wi-Fi sydd am ddim neu i ofyn am help gyda'u ffonau a'u tabledi. Mae'r Fforwm yn gweithio gydag Age Cymru Dyfed sy'n rhoi benthyg tabledi i'r rhai sydd eu hangen ac yn cynnig sesiynau cyngor ar-lein. Mae'r Fforwm yn darparu'r lleoliad ar eu cyfer ac yn hyrwyddo'r gwasanaeth ar eu rhan.

Age Cymru Dyfed

Yn sgil gyllid gan CAVO, ac yn fwy diweddar Sefydliad Santander, mae'r tîm yn gweithio gyda phartneriaid megis Hwb Penparcau i annog pobl i fynd ar-lein ac i ddysgu sgiliau digidol. Hefyd, trwy Santander, rhoddir gwybodaeth iddynt ynghylch cael mynediad at wasanaethau bancio / siopa ar-lein a'r gwasanaethau cymharu prisiau. Mae'r staff a'r tîm o wirfoddolwyr ymroddedig yn cynnig y cymorth hwn dros y ffôn, yn rhithiol, trwy ymweld â chartrefi a thrwy gynnal gweithgareddau grŵp.

Twf Canolbarth Cymru - Datblygiadau Digidol

Mae lefelau cysylltedd band eang yng nghanolbarth Cymru wedi gwella dros y 12 mis diwethaf, ond mae lefel gyffredinol y cysylltedd yn dal yn is na rhai rhannau o Gymru a'r Deyrnas Unedig. Mae gan oddeutu 90% o adeiladau yng nghanolbarth Cymru y gallu i gysylltu â Band Eang Cyflym lawn (30Mbps+). Mae hyn yn is na'r ffigwr ar gyfartaledd ar gyfer Cymru (97.1%) a'r Deyrnas Unedig (97.6%).

Bu cynnydd yn y nifer sy'n gallu derbyn cyflymder uwch yng nghanolbarth Cymru. Mae tua 40% o'r rhanbarth bellach yn medru cael mynediad at Fand Eang Cyflym lawn (100Mbps+). Er hynny, mae'r ffigwr hwn lawer yn is na'r ffigwr ar gyfartaledd ar gyfer Cymru (63.2%) a'r Deyrnas Unedig (76.25%).

Nid yw 7% o adeiladau yng nghanolbarth Cymru yn medru cael mynediad at gysylltiad sy'n fwy na 10Mbps. Mae hyn yn cymharu â ffigwr o 2% ar gyfer Cymru ac 1.8% ar gyfer y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn bennaf oherwydd mai Openreach oedd prif ddarparwr y gwasanaethau seilwaith band eang ac maent wedi canolbwyntio ar y gwasanaethau ffeibr. Mewn ardaloedd eraill, mae gwahanol ddarparwyr yn cynnig technoleg amgen megis mynediad band eang di-wifr sefydlog, sy'n medru goresgyn

Tudalen 17

unrhyw heriau sy'n bodoli o ran cyflymder. Mae darparwyr bellach yn cael trafodaethau gyda thimau'r Cyngor ynghylch sefydlu cysylltiadau mynediad band eang di-wifr sefydlog a gallai hyn gael effaith gadarnhaol fawr ar y cysylltedd band eang.


Er gwaethaf hyn, ar hyn o bryd mae gan 40% o ganolbarth Cymru fynediad at gysylltiadau ffeibr i'r adeiladau, sy'n golygu bod modd lawrlwytho ar gyflymder o hyd at 1gbps (1000mbps). Mae'r ffigwr hwn unwaith eto'n is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (47%), ond mae'n uwch na'r ffigwr ar gyfer nifer o'r Awdurdodau Lleol mwy gwledig. Mae'r cyflymder yn uwch mewn Awdurdodau Lleol mwy poblog (e.e. Caerdydd lle mae'r ffigwr yn 68%).

Mae signal ffonau symudol hefyd yn waeth na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a'r Deyrnas Unedig. Mae'r topograffi a dwysedd is y boblogaeth yn peri heriau penodol. Nid oes gan oddeutu 9% o adeiladau yn y rhanbarth unrhyw wasanaethau 4G, a dim ond 51% o'r adeiladau sydd â darpariaeth 4G gan y pedwar gweithredwr. Mae hyn yn cymharu â ffigwr o 73% ar gyfartaledd yng Nghymru ac 80% ledled y Deyrnas Unedig .

Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym - a ydym wedi gwneud gwahaniaeth?

Mae llawer o gefnogaeth wedi'i darparu dros y 12 mis diwethaf. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni ddibynnu ar ddata cadarn i ddangos a ydym yn gwneud gwahaniaeth. Mae ein dangosfyrddau data yn helpu is-grŵp Tlodi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i fonitro effeithiolrwydd y gefnogaeth a ddarperir. Mae'r dangosfyrddau hyn yn casglu data byw o wefannau cyrff megis yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ac fe'u datblygwyd ymhellach yn ystod 2022-23.


Credyd Cynhwysol



Tudalen 18


Bu cynnydd sydyn yn nifer y bobl ar Gredyd Cynhwysol yng Ngheredigion ym mis Mawrth/Ebrill 2020, ar ddechrau'r pandemig. Rhwng Gorffennaf 2021 a Gorffennaf 2022, bu'r ffigwr yn gymharol sefydlog (tua 4,500) ond ar ôl hynny, dechreuodd gynyddu eto. Roedd y ffigwr ym mis Mawrth 2023 132% yn uwch na'r ffigwr ym mis Mawrth 2020.

Nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau



Mae'r ffigyrau hyn yn dangos nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau yn bennaf oherwydd eu bod yn ddi-waith. Hefyd, bu cynnydd yn y ffigurau hyn o fis Mawrth/Ebrill 2020 ymlaen. Er nad yw'r ffigyrau wedi dychwelyd i'r hyn ag yr oeddent cyn y pandemig, roedd y ffigwr ym mis Mawrth 2023 42% yn uwch na'r ffigwr ym mis Mawrth 2020. Mae hyn yn golygu, er bod pobl yn gweithio erbyn hyn, eu bod nhw'n dal yn gymwys i gael Credyd Cynhwysol. Mae'n debygol mai tlodi mewn gwaith yw'r rheswm am hyn.


Cyflogaeth Ieuentid



Bu effaith Covid ar bobl ifanc yn bryder mawr ac rydym yn monitro nifer y bobl ifanc rhwng 18 a 24 oed sy'n hawlio budd-daliadau. Roedd y cohort hwn yn dilyn yr un duedd â'r ffigyrau cyffredinol ar gyfer nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau a dechreuodd y sefyllfa wella rhywfaint ym mis Mehefin 2022. Fodd bynnag, dechreuodd y ffigyrau gynyddu eto ac ym mis Mawrth 2023, roedd 255 o bobl ifanc rhwng 18 a 24 oed yn hawlio budd-daliadau. Mae'r ffigwr hwn 38% yn uwch na'r gyfradd cyn y pandemig.

Enillion Blynyddol Canolrifol yn ôl Cartref a Gweithle

Mae'n ymddangos bod y bwlc enillion cyfartalog rhwng pobl sy'n byw yng Ngheredigion a phobl sy'n byw yng ngweddill Cymru yn lleihau. Fodd bynnag, nid yw'r bwlc enillion cyfartalog rhwng Ceredigion a gweddill Cymru yn ôl gweithle wedi lleihau. Caiff y duedd hon ei harchwilio ymhellach.



Llesiant Corfforol ac Emosiynol


Ar gyfartaledd, 68 mlynedd yw'r disgwyliad oes iach i ddynion yng Ngheredigion a 70 mlynedd yw'r disgwyliad oes iach i fenywod. Mae'r bwlc mewn disgwyliad oes rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a'r lleiaf difreintiedig yng Ngheredigion yn 10.2 mlynedd i ddynion a 11.8 mlynedd i fenywod. Ardaloedd Teifi (Aberteifi) a Rhyd y Fwch yw'r rhai mwyaf difreintiedig yng Ngheredigion.

Mae'n anoddach mesur yr hyn sy'n cael effaith ar lesiant yn lleol. Ers mis Mawrth 2020, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu arolwg o farn y cyhoedd ar y Coronafeirws (COVID-19). Un o'r cwestiynau a ofynnwyd oedd pa mor bryderus oedd pobl am allu talu eu biliau ymhen y mis. Daeth yr arolwg hwn i ben ym mis Mai 2022 a byddai'n ddefnyddiol nodi dull arall o fesur pa mor hapus yw pobl yng Ngheredigion.

Tlodi Plant

Yn olaf, bu gostyngiad mawr yn ffigurau tlodi plant Ceredigion ar gyfer 2021-22 o gymharu â'r ffigurau yn 2020-21. Serch hynny, yn 2021-22, roedd 30% o blant yng Ngheredigion yn byw mewn tlodi. Nid yw ffigurau 2022-23 ar gael eto, a bydd y rhain yn dangos effaith yr argyfwng costau byw. Mae'n debygol iawn y gwelwn ni gynnydd.

Tudalen 20



Mae defnyddio data fel hyn yn rhywbeth parhaus. Wrth i ni ymchwilio mwy i achosion ac effeithiau tlodi, mae lefel ein dealltwriaeth o'r materion sy'n effeithio ar Geredigion yn parhau i gynyddu.

Gallwn weld hyn yn y gwaith sy'n ymwneud ag allgáu digidol sydd hefyd wedi'i amlygu ar lefel genedlaethol gan Archwilio Cymru, Cymunedau Digidol Cymru ac eraill.

Mae hyn yn golygu y gallwn ni dargedu ein gweithgareddau a sicrhau eu bod yn cyrraedd y manau lle mae eu hangen fwyaf a lle byddant yn cael yr effaith fwyaf.

Y Casgliad a'r Heriau sy'n Parhau

Mae chwyddiant a chostau ynni yn creu pryderon newydd i denantiaid bregus. Mae'r ffaith bod yna ddiffyg ymwybyddiaeth o'r cynlluniau cymorth costau byw hefyd yn broblem fawr.

Mae prinder llety fforddiadwy yng Ngheredigion yn creu problemau. Mae'r Ddeddf Rhentu Cartrefi sy'n ddeddfwriaeth newydd wedi cymhlethu'r materion hyn ymhellach.

Er y bu cynnydd sylweddol yn y gyllideb i ddarparu tai cymdeithasol fforddiadwy, bu hefyd anawsterau wrth chwilio am gontractwyr i wneud y gwaith. Mae pryderon hefyd y bydd effaith y ffosffadau yn afon Teifi yn golygu y bydd oedi o ran ceisiadau cynllunio newydd.

Tudalen 21

Mae'r sector gofal plant yn parhau i wynebu trafferthion o ran costau gwresogi a recriwtio. Mae nifer y llefydd gofal plant wedi gostwng eto. Mae hyn yn effeithio ar allu pobl i gael mynediad at waith a hyfforddiant.

Mae modd i 98.9% o gartrefi Ceredigion fynd at Fanciau Bwyd yn lleol. Llwyddodd y banciau bwyd i ymdopi â'r galw cynyddol yn ystod y flwyddyn ond maen nhw'n ei chael hi'n anodd recriwtio gwirfoddolwyr.

Mae'n debygol bod tlodi mewn gwaith yn parhau'n broblem oherwydd mae nifer y bobl sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn parhau'n uchel. Serch hynny, mae nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau oherwydd eu bod yn ddi-waith wedi lleihau.

Mae'r bwlch enillion cyfartalog rhwng pobl sy'n byw yng Ngheredigion a phobl sy'n byw yng ngweddill Cymru wedi lleihau. Ond nid yw'r bwlch enillion cyfartalog rhwng pobl sy'n gweithio yng Ngheredigion a phobl sy'n gweithio yng ngweddill Cymru wedi lleihau.

Mae cyfraddau tlodi plant wedi gostwng ond maent yn parhau'n uchel iawn. 30% oedd y ffigur yn 2021-22. Nid yw ffigurau 2022-23 wedi'u cyhoeddi eto ond bydd y rhain yn dangos gwir effaith y cynnydd mewn costau byw.

Mae cysylltedd band eang yng nghanolbarth Cymru yn gwella ond ychydig sydd wedi newid o ran signal ffonau symudol. Mae Canolbarth Cymru y tu ôl i weddill Cymru a'r Deyrnas Unedig o ran y materion hyn.

Y Camau Nesaf

1. Parhau i ddatblygu'r dangosfyrddau data er mwyn sicrhau bod gennym ddealltwriaeth gyffredin o effaith esblygol caledi yng Ngheredigion trwy goladu a dadansoddi data.
2. Bydd is-grŵp Tlodi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn datblygu cynllun gwaith gan sicrhau bod mynd i'r afael â thlodi yn parhau'n fater trawsbynciol ar draws pob maes gwaith wrth gyflawni Cynllun Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion 2023-28.

Atodiad A: Y Partneriaid sy'n Cyfrannu

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda - Partneriaethau, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Cyngor Sir Ceredigion - Porth Cymorth Cynnar, Llesiant a Dysgu Cymunedol
- Cyngor Sir Ceredigion - Cyllid a Chaffael
- Area 43
- Cyngor Sir Ceredigion - Porth Cynnal
- Rhwydwaith Canolfannau i Deuluoedd Ceredigion
(Y Borth, Llandysul, Aberaeron, Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan a Thregaron)
- Cyngor Sir Ceredigion - Porth Gofal
- Y Gymdeithas Gofal
- Cyngor Sir Ceredigion - Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd
- Cyngor Sir Ceredigion - Economi ac Adfywio
- Cyngor Sir Ceredigion - Ysgolion a Dysgu Gydol Oes
- Cyngor Sir Ceredigion - Cyswllt Cwsmeriaid
- Cyngor Sir Ceredigion - Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol
- DASH Ceredigion
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau
- Coleg Ceredigion
- Cyngor ar Bopeth Ceredigion
- Fforwm Cymunedol Penparcau
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO)
- Age Cymru Dyfed
- Prifysgol Aberystwyth

CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

<u>Adroddiad i'r:</u>	Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol
<u>Dyddiad y cyfarfod:</u>	19 Hydref 2023
<u>Teitl:</u>	Adroddiad Blynyddol o Gwynion, Canmoliaeth a Rhyddid Gwybodaeth (2022-2023)

Pwrpas yr adroddiad: Rhoi trosolwg cynhwysfawr i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol o weithgarwch Canmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth (gan gynnwys Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol) a dderbyniwyd gan yr Awdurdod Lleol rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn darparu gwybodaeth am weithgarwch cwynion a gyfeiriwyd at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

Rheswm dros ymholiad y Pwyllgor Craffu i'r adroddiad :

I gael gwybodaeth cyn cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol hwn, a'r holl ddogfennau cysylltiedig, i Gyfarfod Pwyllgor y Cabinet sydd wedi'i ddyddio 7 Tachwedd 2023.

Cefndir

Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth yn ymwneud â gweithgaredd Canmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth y Cyngor rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023. Rhestrir yr adroddiad ei hun fel **Atodiad 1** ac mae'n cynnwys gwybodaeth benodol am nifer a math y ganmoliaeth a dderbyniwyd, y gwahanol gamau cwynion, perfformiad a chanlyniadau sy'n ymwneud â'r rhain a gwybodaeth am gydymffurfio â deddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.

Mae adroddiad sy'n manylu ar weithgarwch canmoliaeth a chwynion mewn perthynas â'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'i gynnwys fel **Atodiad 2**, a darperir gwybodaeth am y gwersi a ddysgwyd o ganlyniad i gwynion (corfforaethol) yn **Atodiad 3**. Mae'r prif adroddiad yn cynnwys adran am y cyswllt a dderbyniwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("yr Ombwdsmon") yn ystod y cyfnod adrodd. Mae Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon at y Cyngor wedi'i gynnwys fel **Atodiad 4**, ac mae hyn yn rhoi rhagor o fanylion am holl weithgarwch yr Ombwdsmon ar gyfer Ceredigion, yn ogystal ag ar gyfer cynghorau eraill ledled Cymru.

Dyma'r pedwerydd adroddiad yn olynol lle na ddechreuwyd ymchwiliadau Ombwdsmon nac adroddiadau ffurfiol mewn perthynas â chwynion a wnaed yn erbyn y Cyngor. Er bod llai o atgyfeiriadau gan yr Ombwdsmon yn ystod y flwyddyn adrodd hon, mae gan y Cyngor cyfradd cyson uchel o Setliadau Datrysiaid Cynnar/Gwirfoddol.

Cydnabyddir felly bod heriau'n parhau mewn perthynas â chymhlethdod y cwynion a dderbyniwyd, cynnydd cyffredinol mewn gweithgarwch sy'n ymwneud â chwynion, Rhyddid Gwybodaeth, atgyfeiriadau Ombwdsmon ac atgyfeiriadau at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, yn ogystal â'r heriau sy'n gysylltiedig â chyflwyno cwynion i'r Tîm Cwynion a'r Rhyddid Gwybodaeth ei hun. Mae'n anochel bod yr heriau hyn

Tudalen 24

wedi cael effaith ar allu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion perfformiad mewn perthynas ag amserlenni rhagnodedig.

Trosolwg Bras:

↑ **465** Canmoliaeth a dderbyniwyd

↑ **403** Proseswyd ymholiadau gan y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth

↑ **144** Cwynion a dderbyniwyd **Cam 1 = 96** **Cam 2 = 48**

↓ **35** 'Cysylltiadau' a dderbyniwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

↑ **882** Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol wedi'u prosesu gan y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth

Y Sefyllfa Bresennol

- Cafwyd llawer mwy o ganmoliaeth yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Mae gwella'r ffordd y caiff canmoliaeth ei dderbyn yn parhau i fod yn elfen y mae angen i'r Tîm Cwynion a'r Rhyddid Gwybodaeth weithio arno, ond mae hyn yn cael ei ohirio oherwydd cyfyngiadau capasiti.
 - Derbyniodd y gwasanaeth nifer fwy o ymholiadau - llawer ohonynt naill ai wedi eu dyrannu i'r meysydd gwasanaeth priodol i'w datrys yn rhagweithiol, neu roedd angen ymatebion ffurfiol er mwyn egluro pam na ellid ymdrin â materion o'r fath o dan y gweithdrefnau cwynion.
 - Mae'n werth nodi mai nifer y cwynion a dderbyniwyd gan y Cyngor oedd y trydydd isaf yng Nghymru.
 - Mae angen llawer iawn o waith i atal cwynion Cam 1 rhag cynyddu i Gam 2 yn ddiangen oherwydd na fu'n bosibl ymateb o fewn yr amserlen rhagnodedig o ddeg diwrnod gwaith.
 - Mae cydymffurfio ag amserlenni Cam 2 hefyd angen sylw, yn ogystal â'r diffygion wrth ymdrin â chwynion a gafodd eu cyfeirio at yr Ombwdsmon. Mae'r Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth yn parhau i wynebu heriau wrth geisio bodloni'r gofynion cynyddol yn nifer y ganmoliaeth, cwynion a gweithgarwch Rhyddid Gwybodaeth.
 - Fel y nodwyd uchod, roedd llai o atgyfeiriadau gan yr Ombwdsmon na llynedd, ond nifer y Setliadau Datrysiad Cynnar / Gwirfoddol yw'r uchaf yng Nghymru.
 - Cwynion am faterion Casglu Sbwriel a Chynllunio yw'r prif resymau o hyd dros gwynion; Fodd bynnag, mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu rhagflaenu i ddenu cwynion a rhaid cymryd y rhain mewn cyd-destun â lefel y gweithgarwch a wneir gan y ddau faes gwasanaeth hyn.
1. Mae cydymffurfio â therfynau amser y Rheoliadau Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol angen gwelliant sylweddol.

Meysydd i ffocysu arnynt

- Gwella ymlyniad gydag amserlenni a ragnodir mewn cwynion a pholisïau/deddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth / Rheolaeth Gwybodaeth Amgylcheddol
- Cynyddu gwynwch o fewn y Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth
- Atgyfnerthu'r egwyddor bod cwynion yn gyfrifoldeb i'r Cyngor yn ei chyfanrwydd
- Darparu rhaglen hyfforddi gynhwysfawr ar ymdrin â chwynion
- Gwella system ar gyfer casglu canmoliaeth a data ynghylch gwersi a ddysgwyd
- Parhau gydag ymagwedd agored, eglur ac sy'n canolbwyntio ar y dinesydd wrth ddatrys pryderon

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

A oes Aseiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau? Os na, nodwch pam, os gwelwch yn dda.

Nid oes unrhyw Aseiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau oherwydd nad oes newid yn y gwasanaeth wedi'i gynnig yn yr adroddiad hwn.

Crynodeb o'r Aseiad Effaith Integredig:

Hirdymor: N/A

Cydweithio: N/A

Cyfranogiad: N/A

Ataliad: N/A

Integreiddiad: N/A

Argymhelliad(ion):

Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu nodi cynnwys yr adroddiad hwn cyn ei gyflwyno yng nghyfarfod y Cabinet ar 7 Tachwedd 2023.

Rhesymau dros y penderfyniad:

Sicrhau bod Aelodau'n ymwybodol o berfformiad yr Awdurdod mewn perthynas â Chanmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth.

Enw Cyswllt: Marie-Neige Hadfield

Dynodiad: Rheolwr Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth

Dyddiad yr Adroddiad: 28 Medi 2023

Acronymau:

CLO: Corporate Lead Officer / Swyddog Arweiniol Corfforaethol

CSA: Complaints Standards Authority / Awdurdodau Safonau Cwynion

EIR: Environmental Information Regulations / Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol

FOI: Freedom of Information / Rhyddid Gwybodaeth

ICO: Information Commissioner's Office / Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

PSOW: Public Services Ombudsman for Wales / Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Adroddiad Canmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

2022 – 2023

Cynnwys

1. Cyflwyniad	Tudalennau 3-4
2. Canmoliaeth a dderbyniwyd	Tudalennau 5-6
3. Data a Dadansoddiad Cwynion	Tudalennau 7-10
4. Cwynion i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	Tudalen10- 11
5. Ceisiadau a dderbyniwyd o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (DRhG) a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (RhGA)	Tudalennau 11-12
6. Atodiadau <ul style="list-style-type: none"> - Atodiad 2: Adroddiad Canmoliaeth a Chwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol 2022-2023 - Atodiad 3: Adnabod Gwersi o Gwynion - Atodiad 4: Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon - Atodiad 5: Crynodebau Datrysiad Cynnar yr Ombwdsmon / Datrysiadau Gwirfoddol 	

1. Cyflwyniad

- 1.1 Bydd yr adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth am nifer y **Canmoliaeth, Cwynion** a Cheisiadau gwybodaeth a dderbyniwyd o dan **Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (DRhG) 2000**, a **Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (RhGA) 2004** yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023.
- 1.2 Bydd rhannau o'r adroddiad yn canolbwyntio ar reolaeth a pherfformiad pob un o rwymedigaethau statudol a gweithdrefnol y Cyngor mewn perthynas â rheoli cwynion a mynediad at hawliau gwybodaeth sydd yn disgyn oddi fewn i gyfrifoldeb y Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth. Mae'r ddeddfwriaeth/polisiâu amrywiol wedi'u hamlinellu isod:
 - * **Polisi Pryderon a Chwynion Enghreifftiol (Corfforaethol) 2020**
 - * **Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014**
 - * **Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (DRhG)**
 - * **Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (RhGA)**
- 1.3 Mae'r Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth yn dîm bach, sy'n cynnwys 3.8 aelod o staff, ac mae'n gyfrifol am y swyddogaeth weinyddol o dan y ddeddfwriaeth a'r polisiâu uchod, gan gynnwys unrhyw achosion a gyfeiriwyd at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("yr Ombwdsmon"). Mae'r Tîm Cwynion a rhyddid Gwybodaeth yn darparu cyngor, cymorth a chefnogaeth i swyddogion y Cyngor ar lefel gorfforaethol, yn ogystal ag i ysgolion - o dan gytundeb partneriaeth.
- 1.4 Yn dilyn ffurfio'r **Awdurdod Safonau Cwynion (ASC)** o dan **Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019**, mae'n ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus ledled Cymru gyflwyno eu gweithgarwch cwynion i'r ASC bob chwarter. Mae'r wybodaeth hon ar gael am ddim ar wefan yr Ombwdsmon.
- 1.5 Mae'r Cyngor yn parhau i weithio'n gadarnhaol gyda'r Ombwdsmon a bydd Adran 4 yr adroddiad hwn yn rhoi manylion y **cwynion a gyfeiriwyd at yr Ombwdsmon** yn ystod y flwyddyn adrodd hon. Mae'n werth nodi mai dyma'r pedwerydd cyfnod adrodd yn olynol lle na lansiwyd ymchwiliadau ffurfiol i gŵyn yn erbyn Cyngor Sir Ceredigion. Fodd bynnag, cydnabyddir bod y Cyngor wedi profi y nifer uchaf o achosion sydd angen ymyrraeth gan yr Ombwdsmon (o'i gymharu ag Awdurdodau Lleol eraill). Cyfeirir at achosion o'r fath fel Penderfyniad Cynnar/Setliad Gwirfoddol a byddant yn cael sylw manylach isod.
- 1.6 Mae datrys unrhyw bryderon a dderbynnir gan ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel a gwneir pob ymdrech i gyflawni canlyniadau boddhaol pan ddaw achosion o'r fath i'n sylw. Oherwydd yr ymdrechion parhaus a'r cydweithio cadarnhaol rhwng staff a rheolwyr ar draws y Cyngor, mae'n llawer mwy effeithiol datrys pryderon pan gânt eu derbyn fel 'ymholiad', heb orfod cychwyn y weithdrefn gwyno ffurfiol.

- 1.7 Ymdrinwyd â chyfanswm o **403 o ymholiadau** gan y Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Fodd bynnag, nid oes gan y gwasanaeth alluoedd adrodd digonol eto a all nodi faint o'r ymholiadau hyn oedd angen eu datrys yn dilyn hynny drwy weithdrefn gwyno (fwyaf priodol).
- 1.8 Bydd yr adroddiad hwn yn darparu rhywfaint o wybodaeth am gwynion ar lefel gorfforaethol, h.y. data ynghylch cwynion a reolir o dan bolisiau **corfforaethol** a **Gwasanaethau Cymdeithasol**. Mae'r ddau yn cynnwys **proses dau gam**, ond mae'r gofynion a'r amserlenni a nodir ym mhob un o'r rhain yn wahanol.
- 1.9 Lluniwyd adroddiad sy'n crynhoi'r trefniadau o dan bolisi cwynion statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, sydd hefyd yn darparu dadansoddiad o'r holl ganmoliaeth a chwynion a dderbyniwyd yn ystod 2022-2023, i'w gynnwys yn adroddiad perfformiad Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol. Dylid ystyried y ddogfen hon ar y cyd â'r adroddiad hwn ac fe'i cynhwysir fel **Atodiad 2**.
- 1.10 Felly, bydd yr adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'r polisi corfforaethol a manylion ychwanegol ynghylch nifer, tueddiadau a chanlyniadau cwynion a gofrestrwyd ar gyfer y cyfnod adrodd hwn (2022-2023).
- 1.11 Mae'r Polisi Pryderon a Chwynion corfforaethol yn cynnwys dau gam;
- **Cam 1 yw'r cam anffurfiol a rhaid ei gwblhau o fewn deg diwrnod gwaith**
 - **Mae Cam 2 yn gofyn am ymchwiliad ffurfiol, ar lefel a ystyrir yn rhesymol ac yn gymesur â'r materion sy'n cael eu codi.**
- 1.12 Mae'n sail i ethos ar gyfer sicrhau bod datrys cwynion yn effeithiol yn argymhell fel a ganlyn: '**Ymchwilio unwaith, ymchwilio'n dda**'. O bryd i'w gilydd gall ymchwiliadau ffurfiol o dan Gam 2 gymryd mwy o amser na'r **20 diwrnod gwaith** amlinellir yny polisi. Fodd bynnag, gwneir pob ymdrech i roi gwybod i'r achwynydd am unrhyw oedi a phryd y dylent ddisgwyl derbyn ymateb ffurfiol y Cyngor.
- 1.13 Darperir gwybodaeth am berfformiad y Cyngor yn hyn o beth yn yr adroddiad hwn, ond y flaenoriaeth o hyd yw sicrhau bod ymchwiliad cadarn ac ystyrllon yn cael ei gynnal – hyd yn oed os yw hyn yn cymryd mwy o amser na'r amserlenni rhagnodedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod heriau sylweddol sy'n gysylltiedig â pharhad gwasanaeth o fewn y Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth unwaith eto wedi effeithio ar allu'r Gwasanaeth i gynnal cyfathrebu effeithiol ag achwynwyr mewn rhai achosion.
- 1.14 Mae'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol (SAC) ar gyfer Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd yn gyfrifol am bob cwyn a gweithgaredd Rhyddid Gwybodaeth o fewn y Cyngor a bydd yn codi materion sy'n peri pryder i aelod(au) perthnasol y Grŵp Arweinyddiaeth. Yn ogystal, y SAC yw Uwch Swyddog enwebu'r Cyngor ar gyfer yr Ombwdsmon a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG) mewn perthynas â chwynion a pherfformiad Rhyddid Gwybodaeth, yn y drefn honno.

2. Canmoliaeth

- 2.1 Mae'r holl ganmoliaeth a dderbynnir gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn cael eu recordio a'u monitro'n rheolaidd. Defnyddir adborth cadarnhaol o'r fath i **rannu a hyrwyddo arfer da** lle bynnag y bo modd. Mae canmoliaeth yn ffynhonnell anogaeth bod staff y Cyngor yn darparu gwasanaeth gwerthfawr ac uchel i'r rhai sydd yn eu derbyn.
- 2.2 Efallai y bydd cyfleoedd hefyd yn bodoli i rannu arfer da y tu hwnt i'r meysydd gwasanaeth sy'n derbyn yr adborth cadarnhaol, gan y gall hyn helpu i fabwysiadu dulliau sydd wedi'u profi o ddarparu gwasanaethau effeithiol ar lefel ehangach.
- 2.3 Mae'r tabl isod yn dangos nifer y ganmoliaeth a dderbyniwyd ar gyfer pob maes gwasanaeth yn ystod 2022-2023, ynghyd â'r data ar gyfer y ddau gyfnod adrodd cyn hyn:

Gwasanaeth	2020 – 2021	2021 – 2022	2022 – 2023
Cyswllt Cwsmeriaid & TGCh	37	29	44
Gwasanaethau Democraataidd	-	2	3
Economi ac Adfywio	11	14	12
Cyllid a Chaffael	24	5	6
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	26	25	33
Llywodraethu a Chyfreithiol	-	1	3
Pobl a Threfniadaeth	-	-	-
Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd	3	5	16
Porth Cymorth Cynnar	344	29	57
Porth Cynnal	72	27	78
Porth Gofal	169	77	139
Ysgolion a Dysgu Gydol Oes	11	4	5
*Corfforaethol	117	6	69
Cyfanswm	814	224	465

* Adborth cadarnhaol a ddarperir yn gyffredinol (tuag at holl weithlu'r Cyngor) a thuag at swyddfa'r Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr Corfforaethol

- 2.4 Mae'n werth nodi bod y Cyngor **ond yn** cofnodi canmoliaeth a dderbynnir o **ffynonellau allanol**. O ganlyniad, bydd gwasanaethau sydd ag ychydig iawn, neu ddim, cyswllt uniongyrchol â'r cyhoedd yn llai tebygol o dderbyn unrhyw adborth cadarnhaol a fyddai'n gymwys i'w gynnwys yn yr adroddiad hwn. Felly, nid yw absenoldeb data a gofnodir yn erbyn rhai gwasanaethau yn arwydd o ddiffyg gwerthfawrogiad o'u harferion gwaith nac unrhyw adlewyrchiad o'u perfformiad cyffredinol.
- 2.5 Gall digwyddiadauddylanwadu ar ATA yn ystod cyfnod adrodd penodol, e.e. derbyniwyd nifer sylweddol o ganmoliaeth i Porth Cymorth Cynnar ac ar lefel 'gorfforaethol', yn ystod 2020 – 2021. Mae hyn yn gyson â'r ymdrechion rhyfeddol a wnaed gan swyddogion yn ystod anterth y pandemig coronafeirws (cyhoeddi blychau bwyd, cefnogaeth i ofalwyr ac ati).
- 2.6 Digwyddodd tuedd debyg yn ystod y cyfnod adrodd hwn lle cofnodwyd nifer o ganmoliaeth ar lefel 'gorfforaethol'; priodolwyd hyn yn bennaf i lwyddiant yr Eisteddfod Genedlaethol, a gynhaliwyd yn Nhregaron yn ystod Awst 2022.

2.7 Ciplun o ganmoliaeth a dderbyniwyd yn ystod 2022 – 2023

"Hoffwn ddweud cymaint mwynheais yn fawr y digwyddiadau diweddar a gynhaliwyd trwy Borth Cymorth Cynnar yn y Bandstand a Chanolfan Deuluol Penparcau. Dysgais lawer a mwynheais wnïo fy het ficed yn arbennig. Rwy'n gobeithio y bydd mwy o ddigwyddiadau fel hyn yn y dyfodol." - Porth Cymorth Cynnar -

"Arbennig! Wedi treulio llawer o amser 'ma. Bocsys adar, gliter, smwddis, gwallt, trefnu blodau, wal ddringo - gwych. Plant wrth eu bodd. Digon o weithgareddau amrywiol. Diolch!" - Ysgolion a Dysgu Gydol Oes -

"Neges fer i ddiolch i chi am gefnogi'r sesiynau dros yr wythnosau diwethaf ac am rannu'r wybodaeth. Mae'r hyn rydych chi'n ei wneud gyda'r Canolfannau Croeso [Ffoaduriaid Wcreineg] yn arbennig - diolch yn fawr iawn." - Polisi, Pherfformiad a Diogelu'r Cyhoedd -

"Mae eich cefnogaeth a'ch cyngor wedi bod yn hynod werthfawr; Ni allaf ddiolch digon ichi." - Corfforaethol -

"Diolch i'r holl staff am drefnu'r Parti Nadolig yn Hafan Deg. Braf oedd gweld pawb heddiw. Bwyd, cerddoriaeth ac anrhegion hyfryd i bawb." - Porth Cynnal -

"Hoffwn ddiolch i staff am yr holl waith y maent yn ei wneud o fewn Clic" - Cyswllt Cwsmeriaid -

"Ymwelais â chanolbarth Cymru yn ddiweddar gan ymweld â Rhaeadr, Pontarfynach ac yna Aberystwyth ar hyd ffordd y mynydd. Cefais amser bendigedig ac roeddwn eisiau mynegi fy modlonrwydd gyda'r gwasanaethau lleol yn enwedig yn ystod y cyfnod anodd hwn." - Corfforaethol -

"Ar ein gwyliau byr diweddar yn Nhregaron, teithiom yn y car i bob pwynt o'r cwmpawd. Gwnaeth cyflwr ardderchog yr holl ffyrdd, boed yn briffyrdd A neu'n lonydd troellog cul, argraff amom wrth i ni deithio o gwmpas. Diolch yn fawr iawn am gyfrannu at ymweliad cyntaf plaserus â'ch gwlad." - Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol -

"Hoffwn ddiolch i'r swyddogion sydd wedi ei gwneud hi'n bosibl lledu ac ail-wynebu llwybr isaf Pen Dinas, fel y sylwais heddiw wrth gerdded ar y bryn. Bydd hyn yn gwneud gwahaniaeth mawr i bobl yr ardal yn ogystal â thwristiaid, gan gynyddu mynediad i bobl â phroblemau symudedd a chyfrannu at eu lles." - Economi ac Adfywio -

"Fel arfer, rwyf mor ddiolchgar am y ffordd wych yr ydych wedi ein helpu ac yn parhau i ddarparu cefnogaeth. Mae eich effeithlonrwydd yn rhagorol ac mae eich cyngor ar bob mater yn gyfeillgar, yn drylwyr, ac yn galonogol iawn i mi." - Porth Cynnal -


"Diolch o waelod ein calonnau am yr holl ofal a chariad a ddangosasoch ac a roesoch i X. Roedd mor hapus ac yn caru pob un ohonoch, rhoddasoch iddo flynyddoedd gorau ei fywyd." - Porth Gofal -

"Roeddwn i eisiau dweud diolch enfawr am y seremoni ddoe: roedd yn berffaith! Roedden ni eisiau priodas agos gyda'n huned deuluol fach a dyna beth gawson ni. Rydych chi wedi rhoi atgofion inni eu trysori am byth." - Cyswllt Cwsmeriaid -

3. Cwynion

3.1 Mae'r siart isod yn dangos **cyfanswm y cwynion** a dderbynnir gan y Cyngor bob blwyddyn. Nid yw hyn yn cynnwys nifer y ceisiadau am wasanaeth, ymholiadau neu bryderon y gellid eu datrys gan y gwasanaeth(au) perthnasol ar sail ragweithiol neu'r rhai nad oeddent o fewn cylch gwaith y polisïau cwynion: e.e. achosion lle'r oedd llwybr apêl amgen ar gael, neu os ystyriwyd bod y mater sy'n cael ei gwyno yn *'benderfyniad a wnaed yn briodol'*. Dyma pryd mae'r Cyngor yn cymryd camau sy'n gwbl gyfreithlon ac sy'n cael ei gefnogi gan ddeddfwriaeth a/neu bolisi.

Cyfanswm y cwynion a dderbyniwyd



3.2 Mae'r tabl isod yn gwahanu **cwynion fesul cam**, ar gyfer pob un o'r blynyddoedd adrodd y cyfeirir atynt uchod.


Blwyddyn	Cyfnod 1	Cyfnod 2	Cyfanswm
2017-18	96	39	135
2018-19	92	40	133
2019-20	85	39	124
2020-21	61	42	103
2021-22	73	60	133
2022-23	96	48	144

3.3 Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn ystod 2022-2023 ynghylch darpariaeth (neu ddiffyg hynny) **gwasanaethau Cymraeg** ar draws y Cyngor, ac ni dderbyniwyd unrhyw atgyfeiriadau gan Gomisiynydd y Gymraeg.

3.4 I roi'r uchod yn ei gyd-destun, mae'n werth nodi bod y Cyngor wedi cofnodi **95,421** o ymholiadau yn ystod 2022-2023.


3.5 Mae'r siart hon yn dangos dadansoddiad cwynion gan y Gwasanaeth ac mae hefyd yn darparu categori 'aml-wasanaeth' ychwanegol, a ddefnyddir pan fydd cwynion yn rhychwantu mwy nag un maes gwasanaeth.

Cwynion yn ôl Gwasanaeth



3.6 Mae'r wybodaeth ganlynol yn cyfeirio at nifer y cwynion a gaewyd yn ystod y flwyddyn adrodd hon. Sylwch fod gwahaniaeth rhwng nifer y cwynion a dderbyniwyd a'r rhai a ddaeth i ben yn ystod 2022-2023, mae hyn oherwydd yr amser sydd ei angen i ymchwilio ac ymateb i gwynion (e.e. cofnodir bod cynw a dderbyniwyd ar 31 Mawrth 2022 wedi ei derbyn yn ystod 2021-2022, ond oni bai bod y gŵyn ar gau ar y diwrnod y derbyniwyd, bydd y canlyniad yn cael ei gynnwys yn Adroddiad Blynyddol 2022-2023).


3.7 Darparwyd dadansoddiad o'r cwynion Cyfnod 1 a ddaeth i ben yn ystod 2022-2023 isod ac mae'n dangos nifer yr achosion a oedd: wedi'u datrys yn llwyddiannus, wedi'u codi i ymchwiliad ffurfiol o dan Gam 2 (pe bai'r achwynydd yn anfodlon â'r canlyniad), a nifer y cwynion y bu'n rhaid eu codi i Gam 2 oherwydd methiant y Cyngor i ymateb o fewn yr amserlen a ragnodir ar gyfer cwynion Cyfnod 1 (deg diwrnod gwaith). Mae'r ail siart yn dangos y gwahanol resymau pam gafwyd ymchwiliwyd i gwynion yng Ngham 2. Fe sylwch yr ystyriwyd 15 cynw ar unwaith trwy gam ffurfiol, a ganiateir o dan y polisi ac a fydd fel arfer yn digwydd pan dderbynnir cwynion difrifol, neu'r rhai sy'n ymwneud â chyswllt gan yr Ombwdsmon.



RHESYMAU DROS SYMYD YMLAEN I GAM 2



3.8 Dangosir canlyniadau pob un o'r **72 cwyn Cam 1** a gaewyd yn ystod 2022-2023 isod. Mae'r categori y cyfeirir ato fel '**Arall**' yn cynrychioli unrhyw gwynion a ystyriwyd yn ddiweddarach o dan **broses wahanol** neu a ystyriwyd yn ddiweddarach i fod yn berthnasol i **gwmpas** y polisi cwynion (e.e. lle dylid dilyn polisi amgen neu os daeth yn amlwg na ddylid ystyried y mater penodol fel 'cwyn'). Mae'r un peth yn wir am y **42 cwyn Cam 2** yr ymchwiliwyd iddynt o dan y polisi corfforaethol ac a ddaeth i ben yn ystod 2022-2023.



3.9 Cafodd cyfanswm o **19 o gwynion Cam 1** eu **codi** i Gam 2 oherwydd bod yr **amserlen 10 diwrnod gwaith yn cael ei rhagori**. Mae hyn yn gyson â'r Polisi Cwynion Enghreifftiol a gyhoeddwyd gan yr Ombwdsmon yn unol â rheoliadau'r Awdurdod Safonau Cwynion (CSA). Mae hyn yn cynrychioli **17%** o holl gwynion Cam 1 ac mae'n dangos bod angen gwelliannau i sicrhau cydymffurfiaeth â'r polisi Cam 1.

3.10 O'r **42 cwyn Cam 2** yr ymchwiliwyd iddynt yn ystod y cyfnod adrodd hwn, caewyd **15** achos o **fewn yr amserlen ragnodedig o 20 diwrnod gwaith**. Mae hyn yn cynrychioli **36%** yn unig o'r holl gwynion ffurfiol sydd wedi cael eu cau o fewn amserlenni a nodwyd. Unwaith eto, **mae angen llawer iawn o welliant** i sicrhau bod cwynion yn cael eu hymchwilio a'u hymateb yn brydlon. Mae'n debygol y bydd gwelliannau o'r fath yn lleihau nifer yr atgyfeiriadau i'r Ombwdsmon.

3.11 Nodi gwersi o gwynion

3.12 Gwnaed pob ymdrech drwy gydol y cyfnod adrodd hwn i gasglu mwy o wybodaeth am y gwersi a **nodwyd o ganlyniad i gwynion** a thynnu sylw at y **gwelliannau a'r** cyfleoedd sy'n codi ohonynt. Yn anffodus, mae'r system gofnodi gyfredol ar gyfer cwynion yn anghydnaws ar gyfer dadansoddiad manwl fesul achos; fodd bynnag, adolygwyd yr holl gwynion a gadarnhawyd at ddibenion cyflwyno gwybodaeth am y gwersi a nodwyd yn yr adroddiad hwn.

3.13 Er y dylai fod cyfleoedd bob amser i rannu arfer da, yn amlach na pheidio mae gwelliannau'n cael eu nodi pan fydd cwyn yn cael ei **gadarnhau**. Darperir gwybodaeth yn **Atodiad 3** sy'n rhestru'r gwahanol strategaethau, gwelliannau a chyfleoedd hyfforddi sydd i gyd wedi codi o ganlyniad i gwyn.


- 3.14 Yn dilyn ystyriaeth gan wahanol bwyllgorau democrataidd pan gyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Canmoliaeth, Cwynion a'r Rhyddid Gwybodaeth yn 2022, gwnaed cais am fwy o wybodaeth am gwynion lle ystyriwyd **bod 'cyfathrebu'** yn ffactor sylweddol. Felly, mae dadansoddiad wedi'i wneud mewn perthynas â hyn ac, er bod **cyfathrebu gwael yn nodwedd o'r rhan fwyaf o gwynion**, mae gwybodaeth wedi'i chasglu i benderfynu ar yr achosion lle mai dyma'r prif ffactor, neu o leiaf agwedd sylweddol ar y mater sy'n arwain at gŵyn.
- 3.15 O'r **106** cwyn gorfforaethol a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod adrodd hwn, roedd **56 achos** yn cyfeirio'n uniongyrchol at **ddiffyg cyfathrebu** ar ran y Cyngor. O'r rhain, cododd **39 cwyn** yn syml o ganlyniad i **'fethiant i ymateb'** gwasanaeth i bobl. Rhaid crybwyll hefyd bod y **Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth** wedi wynebu heriau sylweddol o **ran cynnal cyfathrebu** â'r rhai sy'n cysylltu â'r gwasanaeth (naill ai yn ystod y broses gwyno neu wrth geisio datrys y nifer helaeth o ymholiadau a dderbynnir).
- 3.16 Mae'r prif resymau a roddir dros y diffygion cyfathrebu yn cyfeirio'n bennaf at **ddiffyg adnoddau a phroblemau sydd ar gael** wrth **ddyrranu ceisiadau am wasanaeth** a/neu **ymholiadau**. Rhaid edrych ar hyn yng nghyd-destun y **galwadau cynyddol** gan y cyhoedd a **chymhlethdod ychwanegol** y materion sy'n codi.

4. Cwynion i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

- 4.1 Mae gwybodaeth am nifer y cwynion a gyfeiriwyd at yr Ombwdsmon yn ystod y flwyddyn adrodd wedi'i nodi yn **Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon**, a ddarperir yn **Atodiad 4**. Mae'r ddogfen hon yn rhoi rhywfaint o fanylion ynghylch y **meysydd gwasanaeth** sydd wedi bod yn gysylltiedig ag atgyfeiriadau i'r Ombwdsmon, yn ogystal â'u **canlyniadau**.
- 4.2 Er i'r Cyngor dderbyn **llai o atgyfeiriadau** i'r Ombwdsmon yn ystod 2022-2023 – cyfanswm o **35**, o'i gymharu â **52** o gysylltiadau yn ystod 2021-2022, mae nifer yr achosion a gafodd eu datrys drwy **Benderfyniad Cynnar / Setliad Gwirfoddol** yn gyson â'r llynedd, gyda chyfanswm o **13 achos**. Unwaith eto, **ni chynhaliodd yr Ombwdsmon unrhyw ymchwiliadau** i gwynion a gyfeiriwyd at ei swyddfa, er y cydnabyddir bod Ceredigion wedi derbyn y gyfran uchaf o ymyriadau'r Ombwdsmon o'i gymharu â chynghorau eraill ledled Cymru.
- 4.3 **Mae cyfathrebu gwael** yn parhau i fod yn thema allweddol mewn perthynas â chwynion a wneir i'r Ombwdsmon. Darperir **crynodebau** o'r achosion sydd angen ymyrraeth gan yr Ombwdsmon yn **Atodiad 5** (mewn perthynas â holl wasanaethau'r Cyngor), ac mae'n amlwg bod yr heriau sydd wedi wynebu'r Tîm **Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth** yn benodol, wedi cael **effaith** ar y gallu i ddarparu **gwasanaeth trin cwynion effeithiol**. Unwaith eto, mae hyn o ganlyniad i'r galwadau ar y tîm bach, sy'n delio â chwynion, Rhyddid Gwybodaeth a RhGA, ac yn rhoi cyngor a chymorth i ysgolion o dan Gytundeb Partneriaeth dynodedig.


- 4.4 Mae'r nifer uchel o **'ymholiadau'** (nad ydynt efallai ynddynt eu hunain yn syml - gan y bydd y rhain yn cynnwys achosion lle nad yw'r polisi cwynion yn berthnasol, ond sy'n gofyn am ymateb cynhwysfawr serch hynny) yn **ffactor allweddol** wrth ddefnyddio adnoddau hanfodol i agwedd ar waith na ellir ei fesur. Gwaethygyd hyn ymhellach gan **absenoldeb** staff ac **addysg a hyfforddiant** aelod newydd o staff.
- 4.5 Mae'n galonogol nodi bod **31** o'r **44 cwyn a gaewyd** gan yr Ombwdsmon yn ystod 2022-2023, naill ai'n **gynamserol (5)**, **y tu allan i awdurdodaeth (4)** neu, yn y **mwyafrif** o achosion **(22)** caeodd yr Ombwdsmon **y gŵyn yn dilyn eu hasesiad cychwynnol**. Mae hyn yn awgrymu bod y **camau** a gymerwyd gan y Cyngor yn **rhesymol ac yn gymesur**, ac na ellid cyflawni unrhyw beth pellach gan yr Ombwdsmon wrth gynnal adolygiad o'r achos.
- 4.6 Mae'r graff a ddarperir isod yn dangos canlyniadau'r holl gwynion a gaewyd gan yr Ombwdsmon yn ystod y tair blynedd adrodd ddiwethaf:

Canlyniadau Ombwdsmon



5. Ceisiadau a dderbyniwyd o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (DRhG) a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (EIR)

- 5.1 Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, derbyniodd y Cyngor gyfanswm o **882** o geisiadau am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (DRhG) neu Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (RhGA). O'r rhain, cafodd **13** achos eu codi i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol (SAC) Polisi, Perfformiad a Gwarchod y Cyhoedd a oedd yn gofyn am Adolygiad Mewnol.
- 5.2 Mae hyn yn dangos cynnydd bach o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, fel y dangosir isod:



Tudalen 37

- 5.3 Yn ogystal, gwnaed **9 cwyn** i **Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG)**, a datryswyd pob un ohonynt heb weithredu pellach. Mae hyn yn parhau i fod yn gyson â'r flwyddyn adrodd flaenorol, a gofnodwyd 9 atgyfeiriad i'r SCG yn ogystal.
- 5.4 Roedd **cydymffurfiaeth** y Cyngor â bodloni'r amserlenni a nodir o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau RhGA (20 diwrnod gwaith, gyda chaniatâd RhGA i gymryd hyd at **40 diwrnod gwaith** os yw'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn swmpus) yn destun pryder, sydd wedi ysgogi cryn dipyn o waith i godi ymwybyddiaeth o rwymedigaethau statudol y Cyngor yn hyn o beth.
- 5.5 Nodir **dadansoddiad** o nifer y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac EIR a dderbyniwyd yn ôl y **Gwasanaeth** isod.

Gwasanaeth	Derbyniwyd FOIs	EIRs a dderbyniwyd
Cyswllt Cwsmeriaid & TGCh	68	-
Gwasanaethau Democrataidd	18	-
Economi ac Adfywio	61	38
Cyllid a Chaffael	172	-
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	64	31
Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu	7	-
Pobl a Threfniadaeth	58	-
Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd	123	10
Porth Cymorth Cynnar	12	1
Porth Cynnal	63	-
Porth Gofal	87	-
Ysgolion a Dysgu Gydol Oes	60	-
Mwy nad un Gwasanaeth	9	-
Cyfanswm	802	80

Adroddiad Canmoliaeth a Chwynion Gwasanaethau Cymdeithasol 2022-2023

Canmoliaeth

Derbyniwyd cyfanswm o **217 o ganmoliaethau** gan ddefnyddwyr gwasanaeth a/neu eu cynrychiolwyr yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Mae hyn yn fwy na dwbl y nifer o ganmoliaeth a gofnodwyd ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod 2021-2022 (cyfanswm o 104). Mae rhai enghreifftiau o'r canmoliaeth a dderbyniwyd isod.

Gwasanaeth	Canmoliaeth a dderbyniwyd
Porth Cynnal	78
Porth Gofal	139
Cyfanswm	217

"Fel erioed, rwy'n ddiolchgar iawn am y ffordd wych yr ydych wedi ein helpu ac yn parhau i ddarparu cefnogaeth. Mae eich effeithlonrwydd yn rhagorol ac mae eich cyngor ar bob mater yn gyfeillgar, yn drylwyr ac yn galonogol iawn i mi."

"Roedd (defnyddiwr y gwasanaeth) yn ddiolchgar am y prynhawn ac wedi mwynhau cwrdd â ni i gyd, gan wybod bod y gefnogaeth yno pe bai ei hangen arni." – Ymyrraeth Cynnar

Diolch / Diolch o waelod ein calonnau am yr holl ofal a chariad a ddangosoch ac a roesoch i X. Roedd mor hapus ac yn eich caru chi i gyd, a rhoesoch flynyddoedd gorau ei fywyd iddo. – Porth Gofal

"Diolch am eich holl gymorth a chefnogaeth dros y misoedd diwethaf, roedd fy mam-gu a'r teulu cyfan yn ei werthfawrogi." - Gwasanaethau Uniongyrchol

"Mae'r dull cyfannol rydych chi'n ei ddefnyddio yn rhagorol ac rwy'n dymuno y gallai eraill sy'n addysgu eu hunain er mwyn gweithio ym maes gofal cymdeithasol gael rhywfaint o'ch mewnwelediad o ran sut y dylid gwneud pethau a chael yr amser a'r adnoddau i wneud hynny. Unwaith eto, rydych chi'n weithiwr cymdeithasol hollol wych a dylai fod mwy fel chi." - Llesiant Meddwl

"Rydym yn falch iawn o'r ymateb cyflym gan y Gwasanaeth ThG. Roedden nhw'n glir yn eu cyfathrebu, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni drwyddi draw, ac wedi darparu cefnogaeth werthfawr i alluogi fy mam, sy'n 93 oed, i fod yn llawer mwy diogel a hyderus yn ei chartref ei hun. Mae hyn wedi bod o fudd mawr i mi a gweddill y teulu, gan ein bod wedi bod yn poeni'n fawr amdani. Rydym yn ddiolchgar iawn am yr help a'r gefnogaeth." – Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol

"Diolch yn fawr iawn am gynnig nifer o gyfleoedd a diolch yn fawr am eich cefnogaeth garedig." - Gwasanaeth Brysbennu ac Asesu Integredig

Adroddiad Cwynion

Cyflwyniad

Bydd yr adroddiad hwn yn cyfeirio'n benodol at yr holl **ganmoliaethau a chwynion Gwasanaethau Cymdeithasol** a dderbyniwyd yn ystod 2022 – 2023. Bydd y data hefyd yn cael ei gynnwys fel rhan o Adroddiad Blynyddol Canmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth y Cyngor ar gyfer 2022 – 2023, ar lefel gorfforaethol, a gyhoeddir yn y ddiweddarach yn y flwyddyn.

Mae'r Cyngor wedi gweithredu'r gofynion statudol Llywodraeth Cymru a amlinellir yn Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 a **Rheoliadau Gweithdrefn Cynrychiolaeth (Cymru) 2014**. Mae'r rheoliadau hyn yn sail i **Bolisi Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol** y Cyngor ei hun, a fydd yn cael ei adolygu yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Cymeradwywyd y Polisi cyfredol gan bwyllgor Cabinet y Cyngor ar 17 Mawrth 2020, ac mae'n nodi'n bennaf y cyfrifoldebau a roddwyd ar staff o fewn Gwasanaethau **Porth Cynnal a Phorth Gofal**, yn ogystal â'r **Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth**. Mae hyn yn hyrwyddo atebolrwydd ac yn sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i ddatrys pryderon cyn gynted â phosibl, ac os nad yw hyn yn bosibl, i sicrhau bod cwynion yn cael eu rheoli yn unol â rhwymedigaethau statudol y Cyngor.

Mae'n hanfodol bod proses gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithredu yn unol ag egwyddorion **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**, yn ogystal â sicrhau bod y broses yn hygyrch i bawb, a'i bod yn deg ac yn dryloyw.

Gweithgarwch Cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol

Gwneir pob ymdrech i ddatrys cwynion yn rhagweithiol ac mewn llawer o achosion mae hyn yn llwyddiannus. Mewn achosion o'r fath, bydd y cyswllt yn cael ei gofnodi fel pryder. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid yw hyn yn bosibl, yn enwedig pan fo'r materion sy'n cael eu codi o natur ddifrifol neu gymhleth. Bydd yr achosion hyn yn cael eu rheoli yn unol â'r polisi a'r gweithdrefnau cwynion uchod.

Mae gweithdrefn gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys **dau gam**, ac mae Rheolwyr Corfforaethol o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol (h.y. Porth Cynnal a Porth Gofal) yn gyfrifol am reoli cwynion yn erbyn eu meysydd gwasanaeth priodol, gan sicrhau bod y lefel briodol o wneud penderfyniadau ac atebolrwydd yn eu lle. Mae'r Rheolwyr Corfforaethol yn ymdrechu i sicrhau canlyniadau ystyrlon o ganlyniad i gwynion a, lle bo angen, bydd mesurau'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu a bod unrhyw welliannau i'r gwasanaeth yn cael eu blaenoriaethu. Mae Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth yn annibynnol i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, a reolir o fewn y Gwasanaeth Polisi, Perfformiad a Gwarchod y Cyhoedd, ac mae'n gyfrifol am oruchwylio gweinyddiaeth y broses gwyno.

Derbyniwyd cyfanswm o **60 o 'bryderon'** o fewn y cyfnod adrodd, gyda'r mwyafrif wedi cael eu datrys yn foddhaol heb fod angen uwchgyfeirio o dan y weithdrefn gwyno ffurfiol. Fodd bynnag, bydd ei adroddiad yn canolbwyntio ar y **chwynion** yr ymchwiliwyd iddynt o dan gamau 1 a 2 yn ystod y flwyddyn adrodd.

Er gwybodaeth, Cam 1 yw'r unig gyfle sydd ar gael i Reolwyr Corfforaethol ymchwilio a/neu ddatrys cwyn. Mae'r rheoliadau statudol yn nodi bod yn rhaid penodi Swyddog Ymchwilio Annibynnol (SYA) i gynnal ymchwiliadau yng Nghyfnod 2 ac, mewn achosion sy'n ymwneud â phlant, mae Person Annibynnol (PA) hefyd yn cael ei gomisiynu i oruchwyllo'r broses ymchwilio. Unwaith y bydd proses gwynion y Cyngor ei hun wedi cael ei disbyddu, mae gan achwynwyr yr hawl i gyfeirio eu cwyn at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGGC) os ydynt yn parhau i fod yn anfodlon.

Cyfanswm y cwynion a dderbyniwyd yn 2022 – 2023

Ardal Gwasanaeth	Cam 1	Cam 2	Cyfanswm
Porth Cynnal	19	6	25
Porth Gofal	12	1	13
	31	7	38


Derbyniwyd cyfanswm o **38 o gwynion** mewn perthynas â'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2022–2023, sy'n dangos cynnydd wrth gymharu'r ffigyrau hyn â'r cyfnod adrodd blaenorol. Yn ystod 2021–2022 roedd **cyfanswm o 22** o gwynion a gafodd sylw yn unol â pholisi cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae uwch staff ym Mhorth Gofal a Phorth Cynnal yn parhau i weithio'n agos gyda'r Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth drwy fabwysiadu dull cydraniad cynnar pan fo hynny'n briodol ac mae hon yn strategaeth effeithiol. O'r 60 o bryderon a reolir yn rhagweithiol, dim ond un ar ddeg o achosion a aeth ymlaen wedyn i gael eu hymchwilio yng Nghamau 1 a/neu 2; Mae hyn yn cyfateb i **82% o'r holl bryderon sydd wedi'u datrys yn foddhaol** yn y lle cyntaf.

Data cymharol

Darperir data cymharol isod mewn perthynas â chwynion a dderbyniwyd gan Porth Cynnal a Porth Gofal, ar gyfer y blynyddoedd 2020-2021 a 2021-2022 a'r cyfnod adrodd cyfredol – 2022-2023.

CWYNION GWASANAETHAU CYMDEITHASOL



Canlyniadau Cwynion yn ôl Gwasanaeth

Darperir dadansoddiad o nifer y cwynion a'u canlyniadau isod, yn unol â'r meysydd gwasanaeth perthnasol:

Porth Cynnal	Heb ei gadarnhau	Wedi'i gadarnhau	Parhaus / Ataliedig / Darwyd i ben
Gofal wedi'i gynllunio (Oedolion) (3)		1	2
Gofal wedi'i gynllunio (plant) (6)	2	2	2
Diogelu (Oedolion) (4)	1		3
Diogelu (Plant) (4)	1		3
Cymorth Estynedig (Oedolion) (6)	1		5
Lles Meddwl (Oedolion) (2)	2		
Cyfanswm	7	3	15

Porth Gofal	Heb ei gadarnhau	Cadarnhau	Parhaus / Ataliedig / Dirwyn i ben
Brysbennu ac Asesiad Integredig (Oedolion) (6)	2	1	2
Brysbennu ac Asesiad Integredig (Plant) (3)	1	2	
Gwasanaeth Ymyrraeth wedi'i Dargedu (3)			3
Gwasanaethau uniongyrchol (1)		1	
Cyfanswm	3	5	5

Cam 1 Amser-raddfeydd

O'r 31 cwyn a gofnodwyd yng Ngham 1, dim ond 16 a ddaeth i ben (h.y. heb ei atal, ei dynnu'n ôl na'i ddirwyn i ben – eglurir hyn yn fanylach yn y dadansoddiad). **Caewyd 7** o'r cwynion hyn o fewn yr amserlenni a ragnodwyd. Roedd y 9 arall wedi rhagori ar yr amserlenni.



Cam 2 Amser-raddfeydd

Dim ond 5 o'r 7 cwyn a gafodd eu cofnodi yng Ngham 2, a aeth ymlaen i'r cam ymchwilio annibynnol, oherwydd bod dau achwynydd wedi penderfynu tynnu eu cwynion yn ôl. Roedd pob un o'r pum cwyn yr ymchwiliwyd iddynt wedi cymryd mwy o amser na'r amserlen a ragnodwyd sef 25 diwrnod gwaith.

Fodd bynnag, cydymffurfiwyd yn llawn â'r gofynion statudol i gael cymeradwyaeth ysgrifenedig gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, a chyhoeddwyd ymatebion cyn gynted â phosibl ar ôl cwblhau'r ymchwiliad.

Dadansoddiad a Chasgliadau

I gychwyn, fe ddaru dadansoddiad manylach o'r **60 achos** a gofnodwyd yn wreiddiol fel 'pryderon' ddatgelu mai **dim ond 11** o'r rhain a **aeth i'r cam cwynion ffurfiol** wedi hynny. Mae hyn yn bennaf yn cefnogi'r buddion sy'n gysylltiedig â defnyddio dull '**datrysiad rhagweithiol**', lle bo hynny'n bosibl. Datryswyd y 49 o bryderon sy'n weddill (82%) yn llwyddiannus heb fod angen gweithredu pellach.

Mae'n amlwg bod **cynnydd** wedi'i weld yn nifer y cwynion a dderbyniwyd mewn perthynas â'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod 2022-2023. Ar ôl derbyn **31** o gwynion Cam 1 yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, dyma'r lefel uchaf ers 2015-2016, pan gafwyd 32 o gwynion Cam 1 mewn un flwyddyn. Cynhaliwyd **llai o ymchwiliadau Cam 2** yn ystod y cyfnod adrodd hwn ac o ran canlyniadau, roedd cymhareb y cwynion na chadarnhawyd yn weddol gytbwys.

Fodd bynnag, y ffactor mwyaf trawiadol yn yr adroddiad eleni yw na chafodd cyfanswm **o 20 o gwynion** eu cwblhau. Mae yna nifer o resymau y tu ôl i'r rhain, a fydd yn cael eu hesbonio isod.

Fel arfer cofnodir 'cwyn' pan gaiff ei dderbyn, pan ystyrir ei fod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cychwyn y polisi ar unwaith: h.y. nid yw'n 'gais am wasanaeth am y tro cyntaf' neu teimlir bod y materion sy'n cael eu codi yn ddigon difrifol bod ymyrraeth ar lefel Rheolwr Corfforaethol yn angenrheidiol.

Fodd bynnag, mae ffactorau eraill y mae angen eu hystyried unwaith y bydd cwyn yn cael ei chofnodi'n ffurfiol, ond cyn y gall y broses fynd ati i ddechrau:

- sicrhau caniatâd priodol gan y defnyddiwr gwasanaeth (pan fo eraill yn codi pryderon ar eu rhan).
- ystyried a oes unrhyw 'ymchwiliadau cydamserol' ar y gweill (h.y. os oes unrhyw achos llys neu ymchwiliadau diogelu y gellid eu peryglu gan ymchwiliad i gwyno)
- canfod a ellir dilyn y broses gwyno o gwbl (e.e. achosion lle mae'r achwynydd yn ceisio gwyrddroi penderfyniad a wnaed gan Lys)

Yn yr achosion hyn, efallai na fydd y gŵyn yn gallu symud ymlaen nes bod y gwiriadau angenrheidiol wedi'u cwblhau a gall hyn gymryd peth amser o bryd i'w gilydd, tra bod ymgysylltu dilynol rhwng y Gwasanaeth a'r achwynydd.

Dangosodd dadansoddiad o'r **20 cwyn** na ddaeth i ben yn ystod y cyfnod adrodd:

- Y datryswyd 3 cwyn yn **syth** ar ôl ymyrraeth y Rheolwr Corfforaethol ar gyfer y Gwasanaeth perthnasol.
- Roedd methu â darparu **caniatâd** y defnyddiwr gwasanaeth yn cyfrif am ddod â **4 cwyn** i ben.
- Mewn **5 achos**, methodd yr achwynydd **ymgysylltu** â'r broses gwyno a chafodd yr achosion eu cau wedi hynny.
- **Roedd 4 cwyn** yn **parhau neu'n cael eu cynyddu i Gam 2** cyn cwblhau cwyn Cam 1.
- **Cafodd 3 achos** eu tynnu'n ôl yn weithredol gan yr achwynwyr.

- Nid oedd modd gwneud cynnydd mewn 1 cwyn oherwydd **bod ymchwiliadau eraill** yn cael blaenoriaeth.

Er bod hwn yn nifer digynsail o gwynion na chawsant eu cwblhau o fewn y flwyddyn adrodd, rheolwyd yr achosion yn unol â'r polisïau a'r gweithdrefnau statudol ac, er budd didwylledd a thryloywder, ni chafodd y cwynion hyn eu dileu o'r system. Ar ben hynny, rhannwyd pob cwyn gyda'r meysydd gwasanaeth perthnasol a cheisiodd y Rheolwyr Corfforaethol a oedd yn gyfrifol ym mhob achos sicrhau nad oedd unrhyw faterion sylfaenol a oedd angen ymyrraeth neu ymchwiliad pellach.

Mae angen gwella amseroedd ymateb ar ddau gam y broses gwyno, er mai dim ond un achos oedd yn uwch na'r amserlen chwe mis. Weithiau ni ellir osgoi cwynion sy'n cymryd mwy o amser na'r amserlen a ragnodir i'w datrys, a'r flaenoriaeth gyffredinol yw sicrhau bod cwynion yn cael eu hymchwilio'n drylwyr, a rhoddir ystyriaeth ofalus i'r canfyddiadau a'r argymhellion sy'n deillio o ymchwiliadau o'r fath.

Derbyniodd Porth Cynnal nifer uwch o gwynion sy'n bennaf oherwydd natur y gwasanaethau y maent yn eu darparu, a'r cymhlethdodau.

O'r **18 cwyn** yr ymchwiliwyd iddynt yn llawn, cadarnhawyd 8. Er bod hyn yn gynnydd o'i gymharu â'r ffigurau a ddadansoddwyd yn ystod 2021-2022 (4 cwyn wedi'u cadarnhau), mae hyn yn cynrychioli 44% o'r holl gwynion yr ymchwiliwyd iddynt, sy'n dal i fod yn welliant ar yr ystadegau ar gyfer 2020-2021, lle cadarnhawyd 58%. Ymhellach, er bod bron i hanner yr holl gwynion yr ymchwiliwyd iddynt wedi'u cadarnhau, rhaid cydnabod hefyd nifer y pryderon a gafodd eu datrys yn llwyddiannus, a'r cwynion a gafodd eu tynnu'n ôl yn gynharach yn y broses oherwydd y gwaith a wnaed gan wasanaethau i unioni'r materion.

Themâu a thueddiadau

Mae cyfathrebu gwael yn parhau i fod yn ffactor cyson yn y rhan fwyaf o gwynion, ac, mewn llawer o achosion, mae'r rhain yn cael sylw yn brydlon ar lefel gwasanaeth i atal cynnydd diangen. Roedd hyn yn amlwg yn wir mewn perthynas â'r 49 o bryderon a gafodd eu datrys yn rhagweithiol, sy'n llawer mwy na nifer yr achosion yr ymchwiliwyd iddynt wedi hynny o dan y broses gwyno ffurfiol.

Amserlenni

Fel y nodwyd mewn cyfnodau adrodd blaenorol, mae angen gwneud gwelliannau o ran amseroedd ymateb, yn enwedig yng Ngham 1 y broses gwyno. Mae gofyn yng Nghyfnod 1 i gynnig 'trafodaeth' rhwng yr achwynydd a'r Rheolwr Corfforaethol perthnasol. Felly, mae sicrhau argaeledd rheolwyr yn parhau i fod yn her, yn ogystal â cheisio cydlynu eu hargaeledd ag argaeledd yr achwynydd. Bydd ei ewyllys yn parhau i gael ei fonitro mewn cyfnodau adrodd yn y dyfodol.

Mae hefyd wedi dod yn fwyfwy amlwg yn ystod y cyfnod adrodd bod ymdriniaeth gwael â chwynion wedi dod yn nodwedd amlwg yn y methiant i brosesu achosion yn hwylus. Mae ymdrechion helaeth yn cael eu gwneud i sicrhau gwell cyfathrebu rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth, ond mae rhai heriau wedi codi o ganlyniad

i gwynion cynyddol a gweithgarwch Rhyddid Gwybodaeth ar lefel gorfforaethol, yn ogystal ag yn achos y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae hyn yn parhau i fod yn bryder parhaus sydd wedi cael ei godi yn ôl yr angen.

Dysgu Gwersi

Ym mhob achos lle bernir bod cwyn yn cael ei chadarnhau (naill ai yn ei chyfanrwydd neu elfennau penodol) mae'n hanfodol bod argymhellion yn cael eu rhoi ar waith i ddysgu gwersi ac atal unrhyw ail-ddigwydd yn y dyfodol. Crynhoir enghreifftiau o wersi a ddysgwyd o gwynion a dderbyniwyd yn ystod 2022–2023 isod:

- *Cytunwyd y byddai'r Gwasanaeth yn dechrau cofnod wythnosol o'r holl gyfathrebu, a fydd yn cael ei rannu gyda'r achwynydd a bydd cofnodion cyfarfodydd yn cael eu rhannu'n brydlon gyda'r partion perthnasol. Dylai hyn gyfyngu ar lefelau pryder oherwydd diffyg cyfathrebu ac oedi wrth dderbyn dogfennaeth gan y gwasanaeth.*
- *Bydd staff perthnasol yn sicrhau bod trafodaethau'n cael eu cynnal gyda phartion â diddordeb cyn cyfarfodydd ffurfiol, fel bod pawb yn ymwybodol o fformat y cyfarfod a sut y disgwylir iddynt gyfrannu at hyn. Bydd y trafodaethau hyn yn cael eu recordio, a bydd cofnod ffurfiol yn cael ei roi i'r holl fynychwyr fel rhan o'r broses. Yn ogystal, atgoffwyd staff am bwysigrwydd gwneud cofnod byr o unrhyw sgysiau ffôn, yn unol â pholisïau perthnasol y Cyngor.*
- *Cwblhau asesiadau/adolygiadau ac asesiadau gofalwyr i'w hystyried ar ôl derbyn cwynion, er mwyn sicrhau bod lefel y ddarpariaeth gofal yn diwallu anghenion yr unigolyn yn ddigonol.*

Cwynion a gyfeiriwyd at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC)

Yn ystod 2022–2023 derbyniodd y Cyngor **un ar ddeg** o gysylltiadau newydd o swyddfa'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymwneud â chwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r rhain yn ymwneud ag achosion o fewn y gwasanaethau canlynol:

- Porth Cynnal (7)
- Porth Gofal (4)

Cafwyd nifer fwy o atgyfeiriadau gan yr Ombwdsmon yn ystod 2022-2023, gyda dim ond 9 wedi dod i law yn 2021-2022.

Er nad oedd unrhyw gwynion a gyfeiriwyd at y OGCC wedi arwain at ymchwiliad ffurfiol, roedd **wyth cwyn** yn gofyn am ymyrraeth gan yr Ombwdsmon. Datryswyd y cwynion hyn trwy 'gytundebau Datrys **Cynnar / Setliad Gwirfoddol**' y daethpwyd iddynt gyda swyddfa'r Ombwdsmon, y darperir y manylion yn y tabl uchod.

Achosion sy'n gofyn am ymyrraeth gan yr Ombwdsmon drwy Gytundebau Datrys Cynnar

Gwasanaeth(au) a Chyfeirio	Crynodeb o'r Gŵyn	Gweithredoedd y cytunwyd arnynt
<p>Porth Cynnal; Cymorth Estynedig a Delio â Chwynion</p> <p>Cyfeirnod achos: 202200812</p>	<p>Yn flaenorol, ymchwiliwyd i gŵyn yn annibynnol o dan Gam 2; Fodd bynnag, roedd yr achwynydd yn parhau i fod yn anfodlon ar y canlyniad.</p> <p>Prif bryderon yr achwynydd oedd bod y Gwasanaeth wedi methu ag ymgymryd ag asesiadau priodol ac angenrheidiol i bennu gradd ei pherthynas o anableddau dysgu, a'i fod wedi methu ag ystyried gwybodaeth hanfodol a ddarparwyd yn ystod ymgynghoriad dros y ffôn.</p>	<p>Dywedodd yr Ombwdsmon y dylai'r Cyngor ymateb i'r ymholiadau ychwanegol a godwyd gan yr achwynydd, yn dilyn yr ymchwiliad annibynnol yng Ngham 2.</p>
<p>Porth Cynnal; Diogelu a Thrin Cwynion</p> <p>Cyf Achos: 202201388</p>	<p>Yn flaenorol, ymchwiliwyd i'r gŵyn yn annibynnol o dan Gam 2. Estynnwyd y broses hon yn ddiangen, a cheisiwyd eglurhad gan yr achwynydd ynghylch gwybodaeth a gynhwyswyd yn yr adroddiad ymchwiliad annibynnol.</p> <p>Yn benodol, dymunai'r achwynydd dderbyn rhagor o wybodaeth am y gyfraith achos y cyfeiriwyd ati, yr oedd y Gweithiwr Cymdeithasol wedi seilio ei benderfyniad arni wrth ddarparu gofal i berthynas yr achwynydd.</p>	<p>Cytunodd y Cyngor i ddarparu gwybodaeth ychwanegol ynghylch y gyfraith achosion a ystyriwyd gan y Gweithiwr Cymdeithasol ar yr adeg y gwnaed penderfyniadau ynghylch darpariaeth gofal.</p> <p>Yn ogystal, cafodd cytundeb cynharach i ddyfarnu taliad 'Amser a Thrafferth' oherwydd y broses gwynion hir, ei anwybyddu ar y pwynt y cyhoeddwyd yr ymateb ffurfiol. Felly anrhydeddodd y Cyngor ei benderfyniad cynharach yn hyn o beth, a chydabu'r anghyfleustra ychwanegol a achoswyd gan orfod mynd at yr Ombwdsmon i gael y wybodaeth y gofynnwyd amdani.</p>

<p>Porth Cynnal; Cefnogaeth Estynedig</p> <p>Cyfeirnod Achos: 202200853</p>	<p>Cwyno bod y Cyngor wedi methu â gweithredu telerau cytundeb Datrysiad Cynnar a gynhaliwyd ym mis Medi 2020. Roedd hyn yn cynnwys methiant y Cyngor i gwblhau Asesiad Gofalwr yn llawn, ac am yr ansicrwydd parhaus ynghylch telerau a threfniadau Gofal Seibiant. Roedd yr achwynydd hefyd yn drist bod y Cyngor yn ymddangos fel pe bai'n cymryd agwedd anghyson tuag at godiad y Taliad Uniongyrchol.</p>	<p>Cytunodd y Cyngor i ddilyn y trefniadau y cytunwyd arnynt yn flaenorol mewn perthynas â chynnal Asesiad Gofalwr. Comisiynwyd Gweithiwr Cymdeithasol Annibynnol i gwblhau'r dasg hon.</p> <p>Cytunodd y Cyngor hefyd i ysgrifennu at yr achwynydd o fewn chwe wythnos i roi esboniad llawn ynghylch dull y Cyngor o ddarparu gofal seibiant.</p>
<p>Porth Gofal; Brysbynnu Integredig ac Asesu a Thrin Cwynion</p> <p>Cyf Achos: 202205115</p>	<p>Cwyn am fethiant y Cyngor i gymryd o ddifrif y pryderon a godwyd gan y defnyddiwr gwasanaeth am y darparwr gofal a gomisiynwyd i'w chynorthwyo. Gwnaeth yr achwynydd gŵyn yn uniongyrchol i'r darparwr gofal, ond roedd eu hymateb yn anghyflawn ac yn anghywir.</p> <p>Gwrthododd y Cyngor ymchwilio i'r gŵyn am ei fod yn fodlon ag ymateb y darparwr gofal ac nad oedd angen gweithredu ymhellach. Fodd bynnag, anghytunodd yr Ombwdsmon - gan ddyfarnu nad oedd y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswydd i dderbyn y gŵyn yn unol â Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru).</p>	<p>Cytunodd y Cyngor i gysylltu â'r achwynydd i dderbyn ei chŵyn a chyhoeddi ymateb a oedd yn gyson â'r drefn gwyno statudol.</p>
<p>Porth Cynnal; Cymorth Estynedig a Delio â Chwynion</p> <p>Cyf Achos: 202206613</p>	<p>Cysylltodd achwynydd â'r Ombwdsmon am fod y Cyngor wedi methu ag ymchwilio i'r cwynion a gyflwynodd ym mis Chwefror 2022.</p>	<p>Derbyniodd y Cyngor ei fod wedi methu ag ymchwilio i'r cwynion a godwyd a chytunodd i ddechrau Cam 1 o'r broses gwynion ar unwaith. Rhoddwyd ymddiheuriad hefyd am y methiant hwn wrth ymdrin â chwynion a chytunwyd ar daliad unioni i gydnabod yr Amser a'r Helynt yr achwynydd er mwyn cael ei chwyn wedi'i ystyried.</p>

<p>Porth Gofal; Gwasanaeth Brysbennu ac Aseu Integredig a Thrin Cwynion</p> <p>Cyf Achos: 202202005</p>	<p>Cwyno bod y Cyngor wedi methu â darparu diweddariadau rheolaidd ac ystyrion ynglŷn â'i chwyn.</p>	<p>Cytunodd y Cyngor i gyhoeddi ymddiheuriad ffurfiol ac esboniad am yr oedi a brofodd yn ystod ei chwyn. Cytunwyd hefyd y byddai'r ymateb ffurfiol yn cael ei gyhoeddi o fewn pedair wythnos i benderfyniad yr Ombwdsmon, a byddai taliad o £100 yn cael ei roi i gydnabod yr amser a'r drafferth yr aeth yr achwynydd ato wrth wneud ei chwyn i'r Ombwdsmon.</p>
<p>Porth Cynnal; Cymorth Estynedig a Delio â Chwynion</p> <p>Cyf Achos: 202107463</p>	<p>Yn dilyn ymchwiliad annibynnol yng Ngham 2 o'r Weithdrefn Gwyno Gwasanaethau Cymdeithasol, cysylltodd yr achwynydd â'r Ombwdsmon oherwydd bod y Cyngor wedi methu â gweithredu'r argymhellion a wnaed gan y Swyddog Ymchwilio Annibynnol.</p> <p>Yn ogystal, roedd y Cyngor wedi methu â rhoi gwybod iddo na fyddai ymchwiliad diogelu llawn yn cael ei gynnal; er i'r materion a nodwyd yn ystod y gwyn gael eu hystyried yn ystod Cyfarfod Pryderon Proffesiynol, o dan Weithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan.</p>	<p>Trwy Gytundeb Setliad Gwirfoddol, cynigiodd yr Ombwdsmon y dylai'r Cyngor a'r Gwasanaeth Cymorth a oedd yn rhan o'r gwyn wreiddiol, gyfarfod â'r achwynydd a'i fab (y defnyddiwr gwasanaeth) yn ffurfiol i esbonio'r penderfyniad diogelu ac i drafod unrhyw fesurau ychwanegol a fyddai'n hwyluso dysgu yn y dyfodol.</p> <p>Cytunwyd hefyd bod cyfiawnhad dros ymddiheuriad uniongyrchol am y diffyg cyfathrebu ar ôl i ymchwiliad Cam 2 ddod i ben. Cytunodd y Cyngor â'r cynnig hwn a gwnaed y camau angenrheidiol.</p>
<p>Porth Cynnal: Gwasanaeth Diogelu a Thrin Cwynion</p> <p>Cyf Achos: 202107158</p>	<p>Cwyn am fethiant y Cyngor i gau achos diogelu yn brydlon, a gafodd ôl-ffeithiau ar allu'r achwynydd i ailddechrau cyfrifoldebau gwaith penodol. Dywedodd yr achwynydd hefyd na chafodd ei chwyn ei thrin yn briodol unwaith iddi ddwyn y materion hyn i sylw'r Cyngor.</p>	<p>Derbyniodd y Cyngor gyfrifoldeb llawn am yr oedi a brofodd yr achwynydd mewn perthynas â'r achos diogelu, a bod hyn wedi'i waethygu ymhellach gan y methiant i ymdrin â'i chwyn yn effeithiol. Ymhellach, derbyniodd y Cyngor nad oedd wedi gwerthfawrogi'n llawn yr effaith a gafodd y materion hyn ar yr achwynydd.</p> <p>Cytunodd y Cyngor i ddarparu ymddiheuriad corfforaethol am y camweinyddu a nodwyd gan yr Ombwdsmon a darparu iawn ariannol o £725 i gydnabod yr anghyfiawnder a'i rhwystrodd rhag dychwelyd i'w dyletswyddau o fewn sefydliad ieuenticid, ac am y modd y deliodd a chwynion yn wael – gan gynnwys yr amser a'r drafferth a fuddsoddwyd ganddi, gan orfod parhau ei chwyn.</p>

Adnabod Gwersi o Gwynion

Crynodeb o'r Gŵyn	Gwersi a ddysgwyd
<p>Cwynion ynghylch oedi datgeliadau o dan Reoliadau Diogelu Data Cyffredinol y DU (RhDDC DU) h.y. mewn perthynas â Cheisiadau Mynediad Testun.</p> <p>DS: Er bod cwynion o'r fath yn cael eu cofnodi yn erbyn Cyswllt Cwsmeriaid a'r Gwasanaeth TGCh, fel y gwasanaeth arweiniol ar gyfer Diogelu Data, cododd oedi yn bennaf oherwydd bod gwasanaethau ehangach yn methu â darparu'r wybodaeth o fewn yr amserlen a neilltuwyd o dan CMT.</p>	<p>Oedi wrth gael gwybodaeth gan wasanaethau – Swyddog Diogelu Data i atgoffa Gwasanaeth o'u dyletswyddau statudol CMT.</p>
<p>Cwyn ynghylch oedi wrth brosesu ceisiadau gan y Gwasanaeth Cynllunio.</p>	<p>Mae ymdrechion helaeth yn cael eu gwneud i fynd i'r afael â chyfyngiadau capasiti o fewn y gwasanaeth, gan gynnwys penodi ymgynghorwyr allanol i gynorthwyo a darparu lefel o wytnwch wrth symud ymlaen.</p>
<p>Cwynion ynghylch casgliadau gwastraff a gollwyd.</p>	<p>Gwneir pob ymdrech i osgoi neu leihau aflonyddwch gwasanaethau, er efallai na fydd hyn yn bosibl - yn dibynnu ar y rheswm am yr amhariad (h.y. absenoldeb staff neu broblemau gyda'r fflyd).</p> <p>Wrth symud ymlaen, bydd y tîm yn adolygu'r ffordd y mae casgliadau gwastraff â chymorth yn cael eu darparu a'u cyfleu o fewn y tîm. Bydd adolygiad o drefniadau trosglwyddo ar gyfer goruchwylwyr hefyd yn cael ei gynnal.</p> <p>Cynhaliwyd adolygiad i ddod o hyd i ddull amgen o gasglu gwastraff a drefnwyd ar gyfer Dydd Llun Gŵyl y Banc sy'n cael ei fabwysiadu yn ystod 2023. Caiff Aelodau Etholedig ddiweddariadau ddwywaith y dydd ar unrhyw amhariadau.</p>

Atodiad 3

<p>Cwyn am waith gwella a oedd i fod i ddigwydd ar Ffordd a fabwysiadwyd gan y Cyngor.</p>	<p>Cyhoeddwyd ymddiheuriadau am fethu â chwblhau'r gwaith a gytunwyd a bydd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol yn gweithredu fel y pwynt cyswllt unigol ar gyfer yr achwynydd nes bod y gwaith wedi'i gwblhau.</p>
<p>Cwyn am oedi wrth anfon gwybodaeth at achwynydd.</p>	<p>Rhodddwyd ymddiheuriad am yr oedi, a oedd oherwydd diffyg capasiti o fewn y gwasanaeth(au) dan sylw - gwneir pob ymdrech i nodi a gweithredu gwelliannau.</p>
<p>Cwyn aml-wasanaeth a oedd yn cynnwys agweddau ar drafnidiaeth, er i'r prif fethiant godi o ganlyniad i ymdriniaeth gwael â chwynion.</p>	<p>Bydd trefniadau trafnidiaeth yn cael eu hadolygu cyn gynted â phosibl; fodd bynnag, cydnabyddir y dylai'r gŵyn fod wedi cael ei thrin yn gyflym oherwydd y materion a godwyd. Bydd hyfforddiant pellach yn cael ei ddarparu i'r swyddogion perthnasol.</p>
<p>Cwyn am fethiant y Cyngor i asesu gwybodaeth a ddarparwyd gan y defnyddiwr gwasanaeth, a arweiniodd at broblemau ychwanegol yn codi iddynt.</p>	<p>Rhodddwyd ymddiheuriad a nodwyd y byddai ymyrraeth fwy amserol wedi cynorthwyo'r achwynydd.</p>
<p>Camgymeriad a wnaed gan y gwasanaeth, a gafodd ei gywiro unwaith y derbyniwyd cwyn, ac y daeth y gwasanaeth yn ymwybodol o'r mater.</p>	<p>Dylai eithriad Dosbarth C fod wedi cael ei ddefnyddio – diwygiwyd y cofnod (gan gynnwys y Bil) i adlewyrchu'r gwall. Rhodddwyd ymddiheuriad.</p>
<p>Cwyn am y cyngor a ddarparwyd gan y Gwasanaeth Tai a'r oedi cyn datrys achos yr achwynydd.</p>	<p>Rhodddwyd ymddiheuriad ac esoniad am yr oedi - problemau adnoddau ar y pryd, sydd wedi'u datrys ers hynny.</p>
<p>Oedi cyn ymateb i ymholiad a methiant dilynol i sicrhau bod y mater yn cael ei reoli yn unol â'r protocol mwyaf priodol.</p>	<p>Darparwyd Hyfforddiant Siarter Cwsmeriaid a Pholisi Cwynion</p>

**Ombwdsmon
Ombudsman**

Cymru · Wales

Gofynnwch am: Cyfathrebu



01656 641150



Cyfathrebu

@ombwdsmon.cymru

Dyddiad: 17 Awst 2023

Cyngh. Bryan Davies
Cyngor Sir Ceredigion
Trwy E-bost yn unig: bryan.davies@ceredigion.go.uk

Llythyrau Blynyddol 2022/23

Annwyl Cynghorydd Davies

Mae'n falch gennyf gyflwyno'r Llythyr Blynyddol (2022/23) i chi ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion sy'n ymdrin â chwynion yn ymwneud â chamweinyddu a methiant gwasanaeth, cwynion yn ymwneud ag achosion honedig o dorri'r Cod Ymddygiad i Gynghorwyr, a'r camau sy'n cael eu cymryd i wella gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r llythyr hwn yn cyd-daro â'm Hadroddiad Blynyddol - "[Blwyddyn o newid - blwyddyn o her](#)" - teimlad a fydd, heb os, yn atseinio â chyrrff cyhoeddus ledled Cymru. Mae fy swyddfa wedi gweld cynnydd arall yn nifer y bobl sy'n gofyn am ein cymorth - cynydd o 3% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac mae fy swyddfa bellach yn derbyn dwywaith nifer yr achosion a gawsom ddegawd yn ôl.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cyfarfûm â chyrrff cyhoeddus ledled Cymru - gan siarad am ein gwaith achosion, ein hargymhellion, a'n pwerau rhagweithiol. Bydd yr hinsawdd bresennol yn parhau i gyflwyno heriau i wasanaethau cyhoeddus, ond rwy'n ddiolchgar am y ffordd gadarnhaol a chynhyrchiol y mae'r awdurdodau lleol wedi cyfathrebu â'm swyddfa.

Y llynedd, cyfeiriwyd 1,020 o gwynion atom ynglŷn ag awdurdodau lleol - gostyngiad o 11% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaethom ymyrryd (cadarnhau, setlo neu ddatrys yn gynnar) mewn 13% o gwynion awdurdodau lleol.

ombwdsmon.cymru
holwch@ombwdsmon.cymru
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
Rydym yn hapus i dderbyn ac
ymateb i ohebiaeth yn y Gymraeg.

ombudsman.wales
ask@ombudsman.wales
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
We are happy to accept and respond
to correspondence in Welsh.

Cawsom lai o gwynion y Cod Ymddygiad yn 22/23 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, yn ymwneud â Phrif Gynghorau a Chynghorau Tref a Chynghorau Cymuned. Mae fy rôl yn golygu nad wyf yn gwneud canfyddiadau terfynol am dorri'r Cod Ymddygiad. Yn lle hynny, pan fydd ymchwiliadau yn canfod y pryderon mwyaf difrifol, caiff y rhain eu cyfeirio at Bwyllgor Safonau'r awdurdod lleol perthnasol, neu at Banel Dyfarnu Cymru. Yn 2022/23, gwnaeth yr Ombwdsmon 12 atgyfeiriad o'r fath - gostyngiad i'w groesawu o 20 y llynedd.

Cefnogi gwella gwasanaethau cyhoeddus

Er gwaethaf heriau'r llynedd, rydym wedi bwrw ymlaen â'n gwaith gwella rhagweithiol ac wedi lansio proses Ansawdd Gwasanaeth newydd i sicrhau ein bod yn cyflawni'r safonau a ddisgwyliwn.

Y llynedd, dechreuom weithio ar ein hail Ymchwiliad Ehangach ar ein Liwt ein Hun - y tro hwn, yn edrych ar asesiadau gofalwyr o fewn awdurdodau lleol. Bydd yr ymchwiliad hwn yn cael ei gynnal drwy gydol y flwyddyn i ddod, ac edrychwn ymlaen at rannu ein canfyddiadau â'r holl awdurdodau lleol – nid dim ond y rhai sy'n rhan o'r ymchwiliad.

Parhaodd yr Awdurdod Safonau Cwynion ei waith â chyrrff cyhoeddus yng Nghymru'r llynedd, gyda mwy na 50 o gyrff cyhoeddus bellach yn gweithredu ein polisi enghreifftiol. Rydym hefyd wedi darparu mwy na 400 o sesiynau hyfforddi ers i ni ddechrau, gydag awdurdodau lleol, ym Medi 2020.

Gwnaethom barhau â'n gwaith i gyhoeddi ystadegau cwynion am ail flwyddyn, gyda data bellach yn cael eu cyhoeddi ddwywaith y flwyddyn. Mae'r data hwn yn ein galluogi i weld gwybodaeth gyda mwy o gyd-destun - er enghraifft, y llynedd, cyfeiriwyd 25% o gwynion Cyngor Sir Ceredigion at OGCC.

Byddwn yn annog Cyngor Sir Ceredigion, ac yn benodol, eich Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, i ddefnyddio'r data hwn i ddeall eich perfformiad o ran cwynion yn well ac ystyried pa mor dda y mae dulliau ymdrin â chwynion yn dda wedi'i wreiddio ledled yr Awdurdod.

Ymhellach i'r llythyr hwn, a gaf ofyn i'ch Cyngor gymryd y camau canlynol:

- Cyflwyno fy Llythyr Blynyddol i'r Cabinet ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod y cyfle nesaf sydd ar gael a rhoi gwybod i mi pryd y cynhelir y cyfarfodydd hyn.
- Parhau i ymgysylltu â'n gwaith Safonau Cwynion, rhoi hyfforddiant i'ch staff, gweithredu'r polisi enghreifftiol yn llawn a darparu data cwynion cywir ac amserol.

- Rhoi gwybod i mi am ganlyniad ystyriaethau a chymau gweithredu arfaethedig y cyngor yng nghyswllt y materion uchod erbyn cyn gynted â phosibl.

Yn gywir,

MM. Morris.

Michelle Morris

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus

cc.Eifion Evans, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Ceredigion.

Trwy E-bost yn unig: Eifion.evans@ceredigion.gov.uk



Ombwdsmon Ombudsman

Cymru • Wales

Taflen Ffeithiau

Atodiad A - Cwynion a Gafwyd

Awdurdod Lleol	Cwynion a Gafwyd	Cwynion a dderbyniwyd fesul 1000 o drigolion
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	14	0.20
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	55	0.37
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	60	0.33
Cyngor Caerdydd*	182	0.50
Cyngor Sir Caerfyrddin	54	0.29
Cyngor Sir Ceredigion	52	0.72
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	27	0.23
Cyngor Sir Ddinbych	34	0.36
Cyngor Sir y Fflint	99	0.63
Cyngor Gwynedd	39	0.31
Cyngor Sir Ynys Môn	29	0.41
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	27	0.45
Cyngor Sir Fynwy	20	0.21
Cyngor Castell-nedd Port Talbot	45	0.31
Cyngor Dinas Casnewydd	40	0.26
Cyngor Sir Penfro	39	0.31
Cyngor Sir Powys	55	0.42
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	51	0.21
Cyngor Abertawe	71	0.29
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	18	0.19
Cyngor Bro Morgannwg	61	0.46
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	71	0.52
Cyfanswm	1143	0.36

* gan gynnwys 17 Rhentu Doeth Cymru

ombwdsmon.cymru
holwch@ombwdsmon.cymru
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
Rydym yn hapus i dderbyn ac ymateb i ohebiaeth yn y Gymraeg.

ombudsman.wales
ask@ombudsman.wales
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
We are happy to accept and respond to correspondence in Welsh.



Atodiad B - Cwynion a Gafwyd yn ôl Pwnc

Cyngor Sir Ceredigion	Cwynion a Gafwyd	% rhannu
Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion	5	14%
Gweinyddu Budd-daliadau	0	0%
Gwasanaethau Cymdeithasol Plant	1	3%
Cyfleusterau Cymunedol. Adloniant a Hamdden	1	3%
Ymdrin â Chwynion	14	40%
Covid19	0	0%
Addysg	1	3%
Yr Amgylchedd ac Iechyd yr Amgylchedd	2	6%
Cyllid a Threthiant	0	0%
Tai	3	9%
Trwyddedu	1	3%
Cynllunio a Rheoli Adeiladu	2	6%
Ffyrdd a Thrafnidiaeth	1	3%
Amrywiol Eraill	4	11%
Cyfanswm	35	

ombwdsmon.cymru
holwch@ombwdsmon.cymru
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
Rydym yn hapus i dderbyn ac
ymateb i ohebiaeth yn y Gymraeg.

ombudsman.wales
ask@ombudsman.wales
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
We are happy to accept and respond
to correspondence in Welsh.



Ombwdsmon Ombudsman

Cymru · Wales

Atodiad C - Canlyniadau Cwynion (* yn dynodi ymyrraeth)

Cyngor Sir Ceredigion		% rhannu
Tu hwnt i Awdurdodaeth	4	9%
Cynamserol	5	11%
Achosion eraill wedi'u cau ar ôl ystyriaeth gychwynnol	22	50%
Datrys yn Gynnar/Setliad Gwirfoddol*	13	30%
Wedi rhoi'r gorau iddi	0	0%
Adroddiadau Eraill – Ni Chadarnhawyd	0	0%
Adroddiadau eraill a gadarnhawyd*	0	0%
Adroddiadau er Budd y Cyhoedd*	0	0%
Adroddiadau Diddordeb Arbennig*	0	0%
Cyfanswm	44	

ombwdsmon.cymru
holwch@ombwdsmon.cymru
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
Rydym yn hapus i dderbyn ac
ymateb i ohebiaeth yn y Gymraeg.

ombudsman.wales
ask@ombudsman.wales
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
We are happy to accept and respond
to correspondence in Welsh.



Ombwdsmon Ombudsman

Cymru · Wales

Atodiad D - Achosion lle ymyrodd OGCC

	Nifer yr ymyriadau	Nifer y cwynion a gaewyd	% o ymyriadau
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	0	13	0%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	7	54	13%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	7	58	12%
Cyngor Caerdydd	45	159	28%
Cyngor Caerdydd - Rhentu Doeth Cymru	1	16	6%
Cyngor Sir Caerfyrddin	7	49	14%
Cyngor Sir Ceredigion	13	46	28%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	2	24	8%
Cyngor Sir Ddinbych	4	33	12%
Cyngor Sir y Fflint	15	94	16%
Cyngor Gwynedd	6	41	15%
Cyngor Sir Ynys Môn	3	28	11%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	2	26	8%
Cyngor Sir Fynwy	2	21	10%
Cyngor Castell-nedd Port Talbot	5	45	11%
Cyngor Dinas Casnewydd	4	36	11%
Cyngor Sir Penfro	2	40	5%
Cyngor Sir Powys	7	55	13%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	3	45	7%
Cyngor Abertawe	10	76	13%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	2	20	10%
Cyngor Bro Morgannwg	9	62	15%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	4	67	6%
Cyfanswm	160	1108	14%

ombwdsmon.cymru
holwch@ombwdsmon.cymru
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
Rydym yn hapus i dderbyn ac ymateb i ohebiaeth yn y Gymraeg.

ombudsman.wales
ask@ombudsman.wales
0300 790 0203

1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ

We are happy to accept and respond to correspondence in Welsh.



Atodiad E - Cwynion Y Cod Ymddygiad

Cyngor Sir Ceredigion

Ymchwiliadau	Tynnwyd yn ôl	1
	Wedi rhoi'r gorau iddi	1
	Dim tystiolaeth o dorri'r cod	0
	Dim angen gweithredu	0
	Cyfeiriwyd at y Panel Dyfarnu	0
	Cyfeiriwyd at y Pwyllgor Safonau	0
	Cyfanswm	2

ombwdsmon.cymru
holwch@ombwdsmon.cymru
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
Rydym yn hapus i dderbyn ac
ymateb i ohebiaeth yn y Gymraeg.

ombudsman.wales
ask@ombudsman.wales
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
We are happy to accept and respond
to correspondence in Welsh.



Atodiad F - Cwynion Cod Ymddygiad Cyngorau Tref/Cyngor Cymuned

	Tynnwyd yn ôl	Ymchwiliadau					Cyfanswm
		Wedi rhoi'r gorau iddi	Dim tystiolaeth o dorri'r cod	Dim angen gweithredu	Cyfeiriwyd at y Panel Dyfarnu	Cyfeiriwyd at y Pwyllgor Safonau	
Cyngor Cymuned Llandysul	1	0	0	0	0	0	1
Cyngor Cymuned Llanfair Clydogau	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Llangoedmor	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Llansantffraed	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Tref Cei Newydd	0	0	0	0	0	0	0
Cyngor Cymuned Trefeurig	0	0	0	0	0	0	0



Taflen Wybodaeth

Mae Atodiad A yn dangos nifer y cwynion a dderbyniwyd gan OGCC ar gyfer pob Awdurdod Lleol yn 2022/23. Caiff y cwynion hyn eu rhoi mewn cyd-destun gan boblogaeth pob awdurdod.

Mae Atodiad B yn dangos categori pob cwyn a dderbyniwyd, a pha gyfran o'r cwynion a dderbyniwyd sy'n cynrychioli ar gyfer yr Awdurdod Lleol.

Mae Atodiad C yn dangos canlyniadau'r cwynion a gaeodd OGCC mewn cysylltiad â'r Awdurdod Lleol yn 2022/23. Mae'r tabl hwn yn dangos y niferoedd, a'r gyfran y mae pob canlyniad yn ei chynrychioli ar gyfer yr Awdurdod Lleol.

Mae Atodiad D yn dangos Cyfraddau Ymyrru ar gyfer pob Awdurdod Lleol yn 2022/23. Mae ymyrraeth yn cael ei gategoreiddio naill ai gan gŵyn a gadarnhawyd (naill ai cadarnhawyd er budd y cyhoedd neu cadarnhawyd nid er budd y cyhoedd), penderfyniad cynnar, neu setliad gwirfoddol.

Mae Atodiad E yn dangos canlyniadau cwynion y Cod Ymddygiad a gaewyd gan OGCC mewn perthynas ag Awdurdod Lleol yn 2022/23. Mae'r tabl hwn yn dangos y niferoedd, a'r gyfran, y mae pob canlyniad yn ei chynrychioli ar gyfer yr Awdurdod Lleol.

Mae Atodiad F yn dangos canlyniadau cwynion y Cod Ymddygiad a gaewyd gan OGCC mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chynghorau Cymuned yn ardal yr Awdurdod Lleol yn 2022/23. Mae'r tabl hwn yn dangos y niferoedd, a'r gyfran y mae pob canlyniad yn ei chynrychioli ar gyfer Cynghorau Tref a Chynghorau Cymuned.

Achosion sy'n gofyn am ymyrraeth gan yr Ombwdsmon drwy Gytundebau Datrys Cynnar

Gwasanaeth(au) a Chyfeirio	Crynodeb o'r Gŵyn	Gweithredoedd y cytunwyd arnynt
<p>Porth Cynnal; Cymorth Estynedig a Delio â Chwynion</p> <p>Cyfeirnod achos: 202200812</p>	<p>Yn flaenorol, ymchwiliwyd i gŵyn yn annibynnol o dan Gam 2; Fodd bynnag, roedd yr achwynydd yn parhau i fod yn anfodlon ar y canlyniad.</p> <p>Prif bryderon yr achwynydd oedd bod y Gwasanaeth wedi methu ag ymgymryd ag asesiadau priodol ac angenrheidiol i bennu gradd ei pherthynas o anabledau dysgu, a'i fod wedi methu ag ystyried gwybodaeth hanfodol a ddarparwyd yn ystod ymgynghoriad dros y ffôn.</p>	<p>Dywedodd yr Ombwdsmon y dylai'r Cyngor ymateb i'r ymholiadau ychwanegol a godwyd gan yr achwynydd, yn dilyn yr ymchwiliad annibynnol yng Ngham 2.</p>
<p>Porth Cynnal; Diogelu a Thrin Cwynion</p> <p>Cyf Achos: 202201388</p>	<p>Yn flaenorol, ymchwiliwyd i'r gŵyn yn annibynnol o dan Gam 2. Estynnwyd y broses hon yn ddiangen, a cheisiwyd eglurhad gan yr achwynydd ynghylch gwybodaeth a gynhwyswyd yn yr adroddiad ymchwiliad annibynnol.</p> <p>Yn benodol, dymunai'r achwynydd dderbyn rhagor o wybodaeth am y gyfraith achos y cyfeiriwyd ati, yr oedd y Gweithiwr Cymdeithasol wedi seilio ei benderfyniad arni wrth ddarparu gofal i berthynas yr achwynydd.</p>	<p>Cytunodd y Cyngor i ddarparu gwybodaeth ychwanegol ynghylch y gyfraith achosion a ystyriwyd gan y Gweithiwr Cymdeithasol ar yr adeg y gwnaed penderfyniadau ynghylch darpariaeth gofal.</p> <p>Yn ogystal, cafodd cytundeb cynharach i ddyfarnu taliad 'Amser a Thrafferth' oherwydd y broses gwynion hir, ei anwybyddu ar y pwynt y cyhoeddwyd yr ymateb ffurfiol. Felly anrhydeddodd y Cyngor ei benderfyniad cynharach yn hyn o beth, a chydabu'r anghyfleustra ychwanegol a achoswyd gan orfod mynd at yr Ombwdsmon i gael y wybodaeth y gofynnwyd amdani.</p>
<p>Porth Cynnal; Cefnogaeth Estynedig</p> <p>Cyfeirnod Achos: 202200853</p>	<p>Cwyno bod y Cyngor wedi methu â gweithredu telerau cytundeb Datrysiaid Cynnar a gynhaliwyd ym mis Medi 2020. Roedd hyn yn cynnwys methiant y Cyngor i gwblhau Asesiad Gofalwr yn llawn, ac am yr ansicrwydd parhaus ynghylch telerau a threfniadau Gofal Seibiant. Roedd yr achwynydd hefyd yn drist bod y Cyngor yn ymddangos fel pe bai'n cymryd</p>	<p>Cytunodd y Cyngor i ddilyn y trefniadau y cytunwyd arnynt yn flaenorol mewn perthynas â chynnal Asesiad Gofalwr. Comisiynwyd Gweithiwr Cymdeithasol Annibynnol i gwblhau'r dasg hon.</p> <p>Cytunodd y Cyngor hefyd i ysgrifennu at yr achwynydd o fewn chwe wythnos i roi esboniad llawn ynghylch dull y Cyngor o ddarparu gofal seibiant.</p>

	agwedd anghyson tuag at godiad y Taliad Uniongyrchol.	
<p>Porth Gofal; Brysbynnu Integredig ac Asesu a Thrin Cwynion</p> <p>Cyf Achos: 202205115</p>	<p>Cwyn am fethiant y Cyngor i gymryd o ddifrif y pryderon a godwyd gan y defnyddiwr gwasanaeth am y darparwr gofal a gomisiynwyd i'w chynorthwyo. Gwnaeth yr achwynydd gŵyn yn uniongyrchol i'r darparwr gofal, ond roedd eu hymateb yn anghyflawn ac yn anghywir.</p> <p>Gwrthododd y Cyngor ymchwilio i'r gŵyn am ei fod yn fodlon ag ymateb y darparwr gofal ac nad oedd angen gweithredu ymhellach. Fodd bynnag, anghytunodd yr Ombwdsmon - gan ddyfarnu nad oedd y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswydd i dderbyn y gŵyn yn unol â Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru).</p>	<p>Cytunodd y Cyngor i gysylltu â'r achwynydd i dderbyn ei chŵyn a chyhoeddi ymateb a oedd yn gyson â'r drefn gwyno statudol.</p>
<p>Porth Cynnal; Cymorth Estynedig a Delio â Chwynion</p> <p>Cyf Achos: 202206613</p>	<p>Cysylltodd achwynydd â'r Ombwdsmon am fod y Cyngor wedi methu ag ymchwilio i'r cwynion a gyflwynodd ym mis Chwefror 2022.</p>	<p>Derbyniodd y Cyngor ei fod wedi methu ag ymchwilio i'r cwynion a godwyd a chytunodd i ddechrau Cam 1 o'r broses gwynion ar unwaith. Rhoddwyd ymddiheuriad hefyd am y methiant hwn wrth ymdrin â chwynion a chytunwyd ar daliad unioni i gydnabod yr Amser a'r Helynt yr achwynydd er mwyn cael ei chwyn wedi'i ystyried.</p>

<p>Porth Gofal; Gwasanaeth Brysbennu ac Aseu Integredig a Thrin Cwynion</p> <p>Cyf Achos: 202202005</p>	<p>Cwyno bod y Cyngor wedi methu â darparu diweddariadau rheolaidd ac ystyrion ynglŷn â'i chwyn.</p>	<p>Cytunodd y Cyngor i gyhoeddi ymddiheuriad ffurfiol ac esboniad am yr oedi a brofodd yn ystod ei chwyn. Cytunwyd hefyd y byddai'r ymateb ffurfiol yn cael ei gyhoeddi o fewn pedair wythnos i benderfyniad yr Ombwdsmon, a byddai taliad o £100 yn cael ei roi i gydnabod yr amser a'r drafferth yr aeth yr achwynydd ato wrth wneud ei chwyn i'r Ombwdsmon.</p>
<p>Porth Cynnal; Cymorth Estynedig a Delio â Chwynion</p> <p>Cyf Achos: 202107463</p>	<p>Yn dilyn ymchwiliad annibynnol yng Ngham 2 o'r Weithdrefn Gwyno Gwasanaethau Cymdeithasol, cysylltodd yr achwynydd â'r Ombwdsmon oherwydd bod y Cyngor wedi methu â gweithredu'r argymhellion a wnaed gan y Swyddog Ymchwilio Annibynnol.</p> <p>Yn ogystal, roedd y Cyngor wedi methu â rhoi gwybod iddo na fyddai ymchwiliad diogelu llawn yn cael ei gynnal; er i'r materion a nodwyd yn ystod y gwyn gael eu hystyried yn ystod Cyfarfod Pryderon Proffesiynol, o dan Weithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan.</p>	<p>Trwy Gytundeb Setliad Gwirfoddol, cynigiodd yr Ombwdsmon y dylai'r Cyngor a'r Gwasanaeth Cymorth a oedd yn rhan o'r gwyn wreiddiol, gyfarfod â'r achwynydd a'i fab (y defnyddiwr gwasanaeth) yn ffurfiol i esbonio'r penderfyniad diogelu ac i drafod unrhyw fesurau ychwanegol a fyddai'n hwyluso dysgu yn y dyfodol.</p> <p>Cytunwyd hefyd bod cyfiawnhad dros ymddiheuriad uniongyrchol am y diffyg cyfathrebu ar ôl i ymchwiliad Cam 2 ddod i ben. Cytunodd y Cyngor â'r cynnig hwn a gwnaed y camau angenrheidiol.</p>
<p>Porth Cynnal: Gwasanaeth Diogelu a Thrin Cwynion</p> <p>Cyf Achos: 202107158</p>	<p>Cwyn am fethiant y Cyngor i gau achos diogelu yn brydlon, a gafodd ôl-ffeithiau ar allu'r achwynydd i aildechrau cyfrifoldebau gwaith penodol. Dywedodd yr achwynydd hefyd na chafodd ei chwyn ei thrin yn briodol unwaith iddi ddwyn y materion hyn i sylw'r Cyngor.</p>	<p>Derbyniodd y Cyngor gyfrifoldeb llawn am yr oedi a brofodd yr achwynydd mewn perthynas â'r achos diogelu, a bod hyn wedi'i waethygu ymhellach gan y methiant i ymdrin â'i chwyn yn effeithiol. Ymhellach, derbyniodd y Cyngor nad oedd wedi gwerthfawrogi'n llawn yr effaith a gafodd y materion hyn ar yr achwynydd.</p> <p>Cytunodd y Cyngor i ddarparu ymddiheuriad corfforaethol am y camweinyddu a nodwyd gan yr Ombwdsmon a darparu iawn ariannol o £725 i gydnabod yr anghyfiawnder a'i rhwystrodd rhag dychwelyd i'w dyletswyddau o fewn sefydliad ieuentid, ac am y modd y deliodd a chwynion yn wael – gan gynnwys yr amser a'r drafferth a fuddsoddiwyd ganddi, gan orfod parhau ei chwyn.</p>

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol
Dyddiad y cyfarfod:	19/10/23
Teitl:	Contract Bancio
Diben yr adroddiad:	Darparu diweddariad ar Contract Bancio'r Cyngor

1. Cefndir

Mae contract bancio'r Cyngor yn darparu ar gyfer ochr drafodaethol gweithgarwch bancio. Mae hyn yn cynnwys darparu cyfleusterau bancio (e.e. cyfrifon banc a bancio ar-lein) er mwyn bancio a chyfrifo trafodion gweithredol ar gyfer incwm a gwariant y Cyngor.

Mae dull buddsoddi ehangach y Cyngor (gan gynnwys ystyriaethau o ran parti i gontract) yn cael ei osod gan y Strategaeth flynyddol ynghylch Rheoli'r Trysorlys sy'n cael ei hystyried gan y Cyngor Llawn. Nid yw'r contract bancio yn cynnwys gwasanaethau Casglu Diogel (e.e. arian parod / sieciau) ac nid yw'n cynnwys gwasanaethau masnachol ar gyfer dulliau talu ar-lein (e.e. cardiau debyd / credyd).

Darparwr presennol y Cyngor yw Barclays, gyda'r contract presennol yn parhau tan 29/02/24. Mae Barclays yn fanc sydd wedi'i leoli yn y DU, mae ganddo statws credyd A1 (Moody's) hirdymor ac mae'n parhau i ddarparu gwasanaeth gwych i'r Cyngor. Mae Barclays wedi gweithredu gydag arbenigedd yn y sector llywodraeth leol ers dros 15 mlynedd ac ar hyn o bryd mae'n darparu gwasanaethau bancio trafodaethol i ychydig dan 25% o'r holl awdurdodau lleol ac mae'n dal perthynas trysorlys gyda bron i 70% yn y DU.

Y gost flynyddol gyfredol ar gyfer Gwasanaethau Bancio yw tua £10k i £15k y flwyddyn.

2. Y Broses Gaffael

Mae'r Cyngor wedi hysbysebu'r cyfle tendro newydd yn agored drwy GwerthwchiGymru gan ddefnyddio eDendroCymru. Dyma borth caffael Llywodraeth Cymru lle mae gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn hysbysebu cyfleoedd contract. Bydd unrhyw ddarpar gyflenwr sydd wedi cofrestru ar y porth ac sydd â diddordeb mewn Gwasanaethau Bancio wedi derbyn hysbysiad o dendr y Cyngor.

Roedd y tendr ar agor am gyfnod o 1 mis calendr o 04/09/23 tan 04/10/23 a chynigir contract newydd ar sail 7 mlynedd, gydag opsiwn i'w ymestyn am 2 flynedd arall. Mae cryn dipyn o waith gweithredol yn gysylltiedig â newid banciau, a dyna pam y ceir cyfnod contract hirach na'r cyfartaledd. Bydd y tendr yn cael ei werthuso ar sail rhaniad 30% Pris / 70% Ansawdd gyda chyfanswm o 200 marc ar gael.

Tudalen 64

Er bod y ffocws yn y meini prawf ansawdd yn bennaf ar ofynion gweithredol craidd, gan gynnwys materion allweddol megis seiberddiogelwch a mesurau gwrth-dwyll, rhoddir pwysiad a sylw hefyd i Fuddiannau Cymunedol (5 marc) a materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (15 marc).

3. Y Sefyllfa Bresennol

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r tendr wedi cau ac mae 2 Gyflenwr wedi cyflwyno tendr. Bydd y broses gwerthuso tendr ffurfiol nawr yn cael ei chynnal. Mae Rheolau Gweithdrefn y Contract yn atal enwau cynigwyr rhag cael eu datgelu yn ystod y broses gwerthuso tendr.

A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Naddo

Os naddo, nodwch pam

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

Crynodeb:
Hirdymor: Amherthnasol
Integreiddio: Amherthnasol
Cydweithio: Amherthnasol
Cynnwys: Amherthnasol
Atal: Amherthnasol

Argymhelliad: 1. Nodi'r diweddariad a ddarparwyd ar gontract Gwasanaethau Bancio'r Cyngor

Blaenoriaethau Corfforaethol: Pob un

Goblygiadau Chaffael: **Cyllid** a Y Gyllideb Cyllid a Chaffael

Pwerau Statudol:

Atodiadau: Dim

Swyddog Corfforaethol: **Arweiniol** Duncan Hall – Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael

Swyddogion Adrodd: Duncan Hall
Justin Davies
Mark Bridges
George Ryley

Dyddiad: 04/10/23

CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL**Adroddiad i'r: Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol****Dyddiad y Cyfarfod: 19 Hydref 2023****Teitl: Blaenraglen Waith Ddrafft 2023/2024****Pwrpas yr adroddiad: Adolygu Rhaglen waith bresennol y Pwyllgor****Rheswm pam fod Craffu wedi gofyn am y wybodaeth:****Mae blaenraglen waith y Pwyllgor yn cael ei harolygu a'i diweddarau ymhob cyfarfod****Cefndir:**

Mae'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n goruchwyllo gwaith y Cyngor er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau yn y ffordd orau posib a hynny er budd y gymuned leol.

Swyddogaeth Trosolwg a Chraffu yw ystyried y gwasanaethau a'r materion sy'n effeithio ar bobl yng Ngheredigion. Mae'r broses yn rhoi cyfle i Gynghorwyr archwilio amryw swyddogaethau'r Cyngor, holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, ystyried os ellir gwneud gwelliannau i wasanaethau a gwneud argymhellion yn unol â hynny.

Mae craffu'n hanfodol wrth hyrwyddo atebolrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth i'r Cyngor fynd ati i wneud penderfyniadau a'r ffordd mae'n darparu gwasanaethau.

Prif swyddogaethau'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yw'r canlynol:

- Galw'r Cabinet a'r Swyddogion i gyfrif ynghylch eu penderfyniadau
- Bod yn 'gyfaill beirniadol', drwy holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, fel bod y bobl sy'n penderfynu'n destun 'rhwystrau a gwrthbwsau', gan wneud y drefn o benderfynu yn fwy dilys
- Cynnal adolygiadau o wasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Cynnal adolygiadau ar gyfer datblygu gwasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Ystyried unrhyw fater arall sy'n effeithio ar y sir
- Sicrhau bod Ceredigion yn perfformio hyd eithaf ei allu ac yn darparu gwasanaethau o'r radd flaenaf i'w ddinasyddion
- Asesu effaith polisïau'r Cyngor ar gymunedau lleol, ac argymhell ffyrdd o wella
- Gweithio gyda'r cyhoedd i ddatblygu polisïau a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinasyddion.

Gall trefn effeithiol o Drosolwg a Chraffu arwain at y canlynol:

- Penderfyniadau gwell
- Gwelliant o ran Darparu Gwasanaethau a Pherfformiad
- Trefn gadarn ar gyfer Datblygu Polisïau, yn seiliedig ar ymgynghori â'r cyhoedd a chyfraniad arbenigwyr annibynnol
- Gwelliant o ran Democratiaeth, Cynhwysiant, Arweinyddiaeth Gymunedol ac Ymgysylltu
- Ychwanegu haen eglur o dryloywder ac atebolrwydd i brosesau gwleidyddol y Cyngor

Tudalen 66

- Rhoi cyfle i bob Aelod feithrin sgiliau a gwybodaeth arbenigol a allai fod o fudd yn y dyfodol wrth lunio polisiau a monitro perfformiad
- Creu diwylliant o hunan-herio ar sail tystiolaeth.

Y Sefyllfa Gyfredol:

Cwestiynau i'w hystyried wrth ddewis pynciau

- A oes amcan clir dros archwilio'r pwnc hwn?
- Ydych chi'n debygol o lwyddo i gael y canlyniad a ddymunir?
- Beth yw'r manteision tebygol i'r Cyngor a dinasyddion Ceredigion?
- Ydy'r mater yn un sylweddol?
- Oes yna gysylltiadau â'r Strategaeth Gorfforaethol?
- A yw'n fater allweddol i'r cyhoedd?
- Ydy'r materion wedi cael eu codi gan archwiliad allanol?
- A yw'n wasanaeth sy'n perfformio'n wael?

Dewis pynciau

Dylai Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ystyried gwybodaeth o'r Strategaeth Gorfforaethol, y Gofrestr Risg Gorfforaethol, arbedion yn y gyllideb – cynigion ac effaith, cyfarfodydd chwarterol y panel Rheoli Perfformiad Corfforaethol a mewnbwn adrannol wrth ddewis pynciau a chynllunio eu Blaenraglenni Gwaith, ynghyd ag unrhyw waith sy'n parhau.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

Oes Aseiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam

Na

Crynodeb o'r Aseiad Effaith Integredig:

Hirdymor:

Cydweithio:

Cynnwys:

Atal:

Integreiddio:

Argymhelliad / Argymhellion:

Adolygu a diweddarau'r Blaenraglen Waith bresennol.

Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:

Enw Cyswllt: Dwynwen Jones

Swyddogaeth: Swyddog Cefnogi Trosolwg a Chraffu

Dyddiad yr adroddiad: 10 Hydref 2023

Acronymau:

BW – Blaenraglen Waith

Tudalen 67

Pwyllgor	Eitem (disgrifiad/teitl)	Siaradwyr Gwadd	Pwrpas e.e. monitro, polisi, argymhellion
Adnoddau Corfforaethol			
12 Mehefin 2023	Trefi SMART	Arwyn Davies	Ar gais y Cadeirydd
	Diweddariad Cysylltedd Digidol	David Owen	Ar gais y Cadeirydd
	Adroddiad Blynyddol Cynllun Ymgysylltu a Chyfranogi 2022-23	Cathryn Morgan	
19 Gorffennaf 2023	Polisi'r Menopos	Geraint Edwards	Cyn Cabinet
	Cynllun y Gweithlu	Geraint Edwards	Cyn Cabinet
	Diweddariad ar weithio'n Hybrid	Russell Hughes-Pickering/Geraint Edwards	
	Diweddariad ar Clic (wedi gofyn am)	Joy Lake/Anna Gawthorpe	Ar gais y Pwyllgor
	Medium Term Financial Plan (MTFP)	Duncan Hall	
	Strategaeth Caffael a Comisynu	Duncan Hall	
19 Hydref 2023	I Ethol is-gadeirydd ar gyfer gweddill blwyddyn		

Tudalen 68

	<p>fwrdeistrefol 2023/2024 I gychwyn yn syth</p> <p>Mynd i'r Afael â Chaledi</p> <p>Adroddiadau Sylwadau o Ganmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth</p> <p>Diweddariad ar y contract Bancio</p>	<p>Cathryn Morgan</p> <p>Marie Niege-Hadfield</p> <p>Duncan Hall</p>	
7 Rhagfyr 2023	<p>Adroddiad cynnydd ar y Cynllun Ymgysylltu a Chyfranogi 2022-23</p> <p>Strategaeth Digidol a ICT</p> <p>Strategaeth Caffael a Comisynu</p>	<p>Cathryn Morgan</p> <p>Alan Morris</p> <p>Duncan Hall/George Ryley</p>	<p>Cytunwyd yng nghyfarfod Mehefin</p> <p>Cyn-Cabinet</p> <p>Cyn-Cabinet</p>
22 Ionawr 2024 - ARBENNIG	<p>Gwahodd Peter Williams WG a Openreach i diweddarau'r Pwyllgor ar y gwaith yng Ngheredigion</p>		
23 Chwefror 2024	<p>Paratoi ar gyfer y Gyllideb</p>		

Tudalen 69

<p>Cyfarfod arbennig i'w drefnu</p> <p>Diwedd Chwefror/dechrau Mawrth 2024</p>	<p>Polisi Gwyliau Blyneddol a Chydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith</p> <p>Gweithio'n hyblyg gan gynnwys Polisi Gweithio'n Hybrid</p> <p>Polisi Absenoldeb</p>	<p>Geraint Edwards</p>	<p>Cyn-Cabinet</p>
<p>16 Mai 2024</p>	<p>Diweddariad ar Treth y Cyngor a Diwygio Lles</p>	<p>Ann Ireland</p>	
<p>Cyfarfodydd y dyfodol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Adroddiad ar yr Ystad Corfforaethol 		
<p>Grwp Gorchwyl a Gorffen</p>	<p>Ffermydd y Sir – yn mynd yn ei flaen ar hyn o bryd. Cyfarfod nesaf 8.11.23 yn y Siambr – nid yw'r cyfarfod yma yn gyhoeddus</p>		

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**Cofnodion Cyfarfod y PWYLLGOR TROSOLWIG A CHRAFFU
ADNODDAU CORFFORAETHOL**

**a gynhaliwyd ar ffurf hybrid yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron
ac o bell drwy fideo gynadledda ddydd Mercher, 19 Gorffennaf 2023**

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Rhodri Evans (Cadeirydd), y Cynghorwyr Euros Davies, Endaf Edwards, Elaine Evans, Eryl Evans, Hugh R M Hughes, Ann Bowen Morgan, Caryl Roberts a Carl Worrall

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorwyr Catrin M S Davies, Bryan Davies, Gareth Davies a Matthew Vaux (Aelodau Cabinet) ynghyd â'r Cynghorwyr Amanda Edwards ac Elizabeth Evans

Swyddogion yn bresennol:

Mr Eifion Evans, Prif Weithredwr; Mr Geraint Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Pobl a Threfniadaeth; Mrs Liz Merriman, Rheolwr Corfforaethol – Adnoddau Dynol; Mr Russell Hughes-Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Economi ac Adfywio; Mr Alan Morris, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyswllt Cwsmeriaid a TGCh; Mrs Joy Lake, Rheolwr Corfforaethol - Clic; Mr Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael; Mr Mark Bridges, Rheolwr Gwasanaeth – Prosiectau a Chyfrifon; Mrs Lisa Evans, Swyddog Cymorth Craffu a Safonau a Mrs Dana Jones, Swyddog Gwasanaethau Democraidd

(10:00am-2:20pm)

1 Croeso ac Ymddiheuriadau

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Ifan Davies, Gwyn Wigley Evans a Ceris Jones am na fedrent ddod i'r cyfarfod.

Ymddiheurodd y Cynghorydd Paul Hinge na fedrai fod yn bresennol yn y cyfarfod am ei fod yn cyflawni dyletswyddau eraill ar ran y Cyngor.

2 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Dim

3 Polisi Menpos drafft

Ystyriwyd y Polisi Menpos drafft a gyflwynwyd gan yr Arweinydd, y Cynghorydd Bryan Davies. Dywedwyd bod Cyngor Sir Ceredigion wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd gwaith cynhwysol a chefnogol, lle'r oedd pawb yn cael eu trin yn deg gydag urddas a pharch yn eu hamgylchedd gwaith. Roedd y Cyngor hefyd wedi ymrwymo i iechyd, diogelwch a lles y gweithlu cyfan.

Dywedwyd bod y menopos yn rhan naturiol o heneiddio (y cyfeirid ato'n aml fel 'y newid') a'i fod yn cyfeirio at yr adeg pan na fyddai'r mislif wedi dod am 12 mis. Nid oedd bob amser yn drawsnewidiad hawdd ond gyda'r cymorth cywir gallai fod yn llawer gwell. Er nad oedd pawb a oedd yn mynd drwy'r menopos yn dioddef o symptomau, byddai cefnogi'r rhai a oedd yn dioddef o symptomau yn gwella eu profiad yn y gwaith. Amcangyfrifwyd bod tua 1 ym mhob 3 pherson yn y Deyrnas Unedig naill ai wedi cyrraedd y menopos neu'n mynd drwyddo ar hyn o bryd. Roedd data Cyngor Sir Ceredigion ym mis Hydref 2022 yn cofnodi bod 66.1% (1,355) o'r gweithlu corfforaethol (ac eithrio ysgolion) yn fenywod, gyda 34.1% (698) ohonynt rhwng 45 a 64 oed a gallent fod mewn oedran lle'r oeddent yn debygol o fod yn profi'r perimenopos neu wedi cyrraedd y menopos. Roedd yn bwysig felly ein bod yn ystyried anghenion y grŵp hwn ac yn mynd ati'n rhagweithiol i reoli gweithlu a oedd yn amrywiol o ran oedran.

Roedd y Polisi Menopos drafft wedi'i ddatblygu i helpu'r rheini a oedd yn profi symptomau trafferthus yn gysylltiedig â'r menopos, ac i'w cefnogi nhw, eu cydweithwyr a'u rheolwyr i fynd i'r afael ag agweddau galwedigaethol symptomau'r menopos.

Nod y polisi oedd:

- Meithrin amgylchedd lle gall gweithwyr ddechrau sgysiau neu gymryd rhan mewn trafodaethau ynglŷn â'r menopos yn agored ac yn gyfforddus a themlo'n hyderus i ofyn am gymorth.
- Sicrhau bod pawb yn deall beth yw'r menopos, yn gallu cael sgysiau da yn hyderus, a bod polisi ac arferion y Cyngor yn glir iddynt, gyda chefnogaeth Adnoddau Dynol a'r Swyddog Iechyd a Lles Gweithwyr.
- Addysgu a hysbysu rheolwyr ynghylch symptomau posibl y menopos a sut y gallant gefnogi gweithwyr yn y gwaith.
- Lleihau absenoldeb oherwydd symptomau'r menopos.
- Rhoi sicrwydd i weithwyr ein bod yn gyflogwr cyfrifol, sydd wedi ymrwymo i gefnogi eu hanghenion yn ystod y menopos.

Roedd y polisi'n nodi rolau a chyfrifoldebau'r rheini a oedd yn ymwneud â chefnogi gweithwyr yr effeithir arnynt yn y gweithle. Roedd yn rhoi trosolwg o symptomau'r menopos a'u heffaith, ac roedd yn cynnig arweiniad i weithwyr a rheolwyr llinell am y cymorth a'r wybodaeth a oedd ar gael i'w helpu i ymdrin â'r materion a oedd yn codi o'r menopos.

Fel rhan o'r polisi, byddai arweiniad a gwybodaeth bellach yn cael eu cynnwys yn adran y Gweithwyr ar CeriNet a byddai cymorth ymarferol ar gael i reolwyr yn y Pecyn Cymorth i Reolwyr ar CeriNet. Byddai'r Gwasanaeth Pobl a Threfniadaeth hefyd yn darparu cymorth pellach i'r rheini sy'n profi symptomau'r menopos drwy wneud y canlynol:

- Darparu caffi menopos lle gall gweithwyr gwrdd â'i gilydd a chael cymorth a gwybodaeth. Bydd y sesiynau hyn yn cael eu cefnogi gan y Swyddog Iechyd a Lles Gweithwyr.
- Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r menopos i Reolwyr

Diolchodd y Cynghorydd Bryan Davies i Alison Boshier, Ysgrifennydd, a Swyddog Menywod Unsain Ceredigion am ei holl waith caled wrth ddatblygu'r polisi hwn ar gyfer y Cyngor, gyda chymorth swyddogion yn y gwasanaeth Adnoddau Dynol.

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD:

- (i) y dylid argymhell bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Polisi Menopos;
- (ii) y dylid ystyried penodi Hyrwyddwr neu Bencampwr y Menopos o fewn yr Awdurdod;
- (iii) y dylai'r Cyngor hyrwyddo Diwrnod Menopos y Byd ym mis Hydref; ac
- (vi) y dylid cynnal gweithdy i'r holl Aelodau a Rheolwyr i godi ymwybyddiaeth o'r Menopos

4 **Adolygiad o threfniadau Gweithio yn Hybrid**

Cyflwynodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Bryan Davies yr adroddiad gan amlinellu'r canlynol o ran y trefniadau Gweithio Hybrid:-

- Y Cefndir
- Prosiect 'Y Ffordd yr Ydym yn Gweithio'
- Y Strategaeth Gweithio Hybrid
- Polisi Gweithio Hybrid Dros Dro
- Penawdau'r Polisi
- Adolygiad
- Rheolwyr Llinell

Dywedwyd bod 95% o weithwyr yn cytuno bod eu profiad o weithio'n hybrid wedi bod yn gadarnhaol a bod canlyniadau'r gweithwyr a'r rheolwyr llinell yn debyg iawn. Roedd y gweithwyr wedi nodi'r hyn yr oeddent yn ei ffafrio yn glir. Nid oedd cynifer o weithwyr wedi nodi eu bod yn 'cytuno'n gryf' bod gweithio hybrid wedi arwain at fudd ariannol ond roedd bron i 80% o weithwyr yn credu bod gweithio hybrid wedi bod o fudd iddynt. Pan ofynnwyd iddynt a fyddent yn ystyried swydd arall pe byddai eu hawl i weithio mewn ffordd hybrid yn dod i ben, dywedodd 39% y bydden nhw; dywedodd 24% na fydden nhw, ac roedd y 37% a oedd yn weddill yn ansicr.

Roedd canlyniadau'r arolwg yn dangos yn glir, o safbwynt y rheolwyr llinell a'r gweithwyr, fod gweithio hybrid yn cael ei ystyried yn rhywbeth buddiol ac yn fodd o gadw staff. Argymhellwyd felly y dylid derbyn gweithio hybrid fel opsiwn gweithio hyblyg yn yr hirdymor ac y dylid diwygio'r Polisi Gweithio Hybrid Dros Dro i adlewyrchu hyn.

Pe byddai'r cynnig i fabwysiadu'r opsiwn gweithio hybrid i weithwyr yn cael ei gymeradwyo'n barhaol, dywedwyd y byddai modd rhyddhau gofod swyddfa nad oedd wedi'i ddefnyddio'n llawn yn ystod cyfnod treialu'r trefniadau gweithio hybrid dros dro. Roedd y 12 mis diwethaf wedi dangos bod y capasiti presennol o ran desgiau ar gyfer gweithio hybrid yng Nghanolfan Rheidol a Phenmorfa wedi gallu bodloni'r galw yn ei ffurf bresennol. Serch hynny, derbyniwyd y byddai angen rhoi trefniadau mwy parhaol ar waith yn y ddau leoliad. Yn ystod y cyfnod treialu a barodd 12 mis, roedd y defnydd o ddesgiau ar ei uchaf ddechrau mis Rhagfyr, ac roedd nifer yr ystafelloedd a

archebwyd ar ei uchaf ym mis Mawrth 2023. Gwelwyd bod y defnydd cyfartalog dros fisoedd y gaeaf yn uwch nag yn ystod misoedd cynhesach yr haf, ond roedd yn parhau i fod o fewn terfynau'r capasiti mwyaf.

Cynigiwyd y dylai'r swyddogion gynnal adolygiad o holl swyddfeydd y Cyngor ar draws ei ystâd gan nodi'r posibilïadau o addasu'r swyddfeydd at ddibenion gwahanol. O ganlyniad i'r gwaith ymgysylltu gyda'r cyhoedd ar y defnydd o swyddfeydd y Cyngor yn y dyfodol, cafwyd nifer o awgrymiadau ynghylch ffyrdd posibl o'u defnyddio, gan gynnwys defnyddio'r adeiladau fel cyfleusterau ar gyfer y gymuned, ysbyty neu leoliad gofal iechyd ac fel mannau ar gyfer busnesau a llety preswyl.

Cododd yr Aelodau bryderon ynghylch canfyddiad y cyhoedd o'r trefniadau gweithio o gartref a'u canfyddiad nad oedd gwaith yn cael ei gyflawni. Fodd bynnag, nid oedd y canfyddiadau hyn yn gywir am fod y swyddogion llawer yn fwy cynhyrchiol. Er enghraifft, roeddent yn gweithio yn ystod yr adegau y byddent wedi bod yn teithio i'r gwaith ac oddi yno ac yn ystod yr adegau y byddent yn teithio rhwng cyfarfodydd mewn amrywiol leoliadau y tu hwnt i'w prif swyddfa. Cytunwyd y byddai modd i'r Gwasanaeth Cyfathrebu roi sylw i hyn.

CYTUNWYD:-

(i) argymhell bod y Cabinet yn mabwysiadu gweithio hybrid fel opsiwn parhaol i weithwyr sy'n gallu gweithio'r un mor effeithiol o bell ag y gallant yn y swyddfa;

(ii) datblygu Polisi Gweithio Hybrid i ddisodli'r Polisi Gweithio Hybrid Dros Dro presennol a dod ag ef gerbron y pwyllgor Craffu yn dilyn ymgynghoriad; ac

(iii) y dylai'r polisi gweithio hybrid gynnwys y gofyniad i reolwyr sicrhau bod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal yn y cnaud naill ai bob wythnos, bob pythefnos neu bob mis.

eeekly or monthly physical team meeting

5 Cynllun Ddrafft y Gweithlu 2023-2028

Cyflwynodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Bryan Davies yr adroddiad am gynllun y gweithlu. Dogfen strategol oedd hon a oedd yn amlinellu dull y Cyngor o reoli ei weithlu er mwyn bodloni ei anghenion o ran darparu gwasanaethau yn awr ac yn y dyfodol. Roedd hyn yn cynnwys dadansoddi gofynion gweithlu'r sefydliad, nodi unrhyw fylchau, a chanolbwyntio ar y cynlluniau datblygu er mwyn rhoi sylw iddynt.

Roedd datblygu Cynllun y Gweithlu yn hanfodol am sawl rheswm:

- Cysoni Strategol: cysoni strategaethau adnoddau dynol â nodau strategol y Cyngor. Bydd y Cynllun yn galluogi'r Cyngor i nodi rolau hanfodol, y cymwyseddau a'r sgiliau y mae eu hangen i gyflawni ein hamcan corfforaethol.

- Recriwtio a Chadw: darparu dealltwriaeth o'r sgiliau a'r cymwyseddau y mae eu hangen i lenwi rolau yn y dyfodol. Bydd hyn yn cynnig modd datblygu strategaethau recriwtio a chadw effeithiol a fydd yn sicrhau ymgysylltu llwyddiannus â gweithwyr, gyda'r nod o gynyddu cymhelliant, lleihau cyfraddau trosiant staff, a gwella boddhad gweithwyr.

- Cynllunio Olyniaeth: gallu adnabod y swyddi hanfodol ac olynwyr posibl gan sicrhau bod rhaglenni neu gyfleoedd datblygu, hyfforddi a mentora yn lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithwyr allweddol yn gadael.
- Ystwythder a Hyblygrwydd: trwy ragweld anghenion a gofynion sgiliau'r gweithlu yn y dyfodol gall y Cyngor roi sylw rhagweithiol i'r heriau a ddaw a manteisio ar gyfleoedd newydd.

Fel yn achos Cynllun y Gweithlu 2017-2022, defnyddiwyd pecyn cymorth Cynllunio'r Gweithlu Strategol i arwain gwaith y Swyddog Arweiniol Corfforaethol a'i dimau trwy'r broses. Roedd y pecyn cymorth wedi helpu i ddadansoddi'r gweithlu presennol cyn ehangu'r dadansoddiad hwnnw i nodi'r gofynion, y sgiliau a'r cymwyseddau y byddai eu hangen ar y gweithlu yn y dyfodol i ddarparu gwasanaethau newydd neu well.

Ar ddechrau'r flwyddyn, cyfarfu'r Gwasanaeth Pobl a Threfniadaeth â phob maes gwasanaeth i gyflwyno'r pecyn cymorth a darparu ystod o ddata am y gweithlu i gynorthwyo pob maes gwasanaeth i gwblhau'r pecyn cymorth. Yna cafodd y wybodaeth hon ei chasglu, ei dadansoddi a'i hasesu yn unol ag amcanion y gweithlu yn y Strategaeth Gorfforaethol a gofynion pum ffordd o weithio'r Egwyddorion Cynaliadwyedd i ddatblygu themâu allweddol ar gyfer Cynllun y Gweithlu 2023-2028.

Roedd Cynllun y Gweithlu 2023-2028 yn cydnabod yr hyn a gyflawnwyd yn ystod y cynllun blaenorol, y cysylltiad â strategaethau corfforaethol eraill, proffil ein gweithlu, ac roedd yn nodi pedair blaenoriaeth allweddol i wynebu'r heriau a nodwyd.

Y pedair blaenoriaeth â thema a nodwyd yn y cynllun oedd y canlynol:

1. Gwireddu Potensial
2. Profiad yr Ymgeisydd a Denu Talent
3. Ffyrdd Newydd o Weithio
4. Ein Diwylliant

Roedd Cynllun y Gweithlu 2023-2028 yn rhoi trosolwg o bob thema cyn manylu ar y camau a fyddai'n cael eu cymryd i fodloni gofynion y Cynllun. Roedd cyfres o fesurau arfaethedig wedi'u cynnwys ar ddiwedd y ddogfen er mwyn gallu monitro cynnydd yn effeithiol dros gyfnod y cynllun tair blynedd.

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD i wneud y canlynol:-

- (i) argymhell bod y Cabinet yn cymeradwyo Cynllun y Gweithlu 2023-2028; ac
- (ii) ystyried y posibilrwydd y dylai prentisiaid barhau i weithio gyda'r Cyngor am gyfnod penodol o amser ar ôl i'w cynllun ddod i ben, os yw'r Cyngor wedi cyfrannu'n ariannol at y cynllun hwnnw.

6 Diweddariad ar Clic

Cyflwynodd y Cynghorydd Catrin M S Davies yr adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am Clic. Amlinellwyd y wybodaeth ganlynol yn yr adroddiad:-

- Gwasanaethau i gwsmeriaid
- Datblygiadau TGCh
- Buddion corfforaetholi a'r Strategaeth

- Ystadegau am y System Clic

Dyweddodd rhan fwyaf yr Aelodau fod y system Clic yn gweithio'n dda ond y byddai'r system yn gweithio'n well pe byddai pob gwasanaeth yn ymateb i ymholiadau'n brydlon. Dywedodd y Cyngorydd Carl Worrall nad oedd y system wedi gweithio iddo ef am iddi gymryd misoedd i ddatrys nifer o faterion yn ei Ward. Dywedodd y Cyngorydd Caryl Roberts fod y Swyddogion Arweiniol Corfforaethol naill ai'n Steve Jobs neu'n Rodney Trotter wrth ddefnyddio'r system; ac nad oedd yn dderbyniol bod angen anfon neges atgoffa atynt os na fyddai materion / ymholiadau wedi'u datrys o fewn pythefnos, gan y dylai'r materion hyn fod yn derbyn sylw yn gynt. Ychwanegodd nad oedd ganddi unrhyw gwynion am weithwyr rheng flaen Clic a'i bod yn croesawu'r system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM).

Hefyd, cododd y Cyngorydd Roberts bryder fod y Prif Weithredwr wedi dweud wrth yr holl Aelodau yn y cyfarfod cyntaf ar ôl yr etholiad na ddylai'r Aelodau gysylltu ag unrhyw swyddogion yn uniongyrchol i drafod materion, ar wahân i'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol, y Rheolwr Corfforaethol neu ef ei hunan. Dywedodd y Cyngorydd Roberts iddi gasglu gwybodaeth gan Aelodau o Awdurdodau Lleol eraill am y mater hwn ac iddi ganfod bod hawl ganddynt gysylltu â swyddogion ar bob lefel yn uniongyrchol. Nododd y dylai pob Aelod a Swyddog fod yn cydweithio er lles eu cymunedau ac fel Tîm Ceredigion. Dywedodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Clic, TGCh a Gwasanaethau Cwsmeriaid fod y sylw am Rodney Trotter yn annheg am fod y swyddogion yn gweithio'n galed yn y cefndir i ddelio â'r ôl-groniad o ymholiadau.

Wrth ymateb, dywedodd y Prif Weithredwr ei fod yn siomedig iawn â sylwadau'r Cyngorwyr ynghylch y mater hwn a'u hagwedd amhroffesiynol tuag at Swyddogion Arweiniol Corfforaethol mewn fforwm cyhoeddus a nododd ei fod yn disgwyl ymddiheuriad cyn diwedd y cyfarfod. Ychwanegodd y dylai pob Aelod a Swyddog fod yn gwrtais wrth ei gilydd ac y gallai pob Aelod gysylltu â'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol yn uniongyrchol fel y gallen nhw wedyn gysylltu â swyddogion yn eu gwasanaethau pe na fyddai ymateb wedi dod i law mewn da bryd. Cytunwyd ar y broses hon yn dilyn y weinyddiaeth flaenorol pan fu Aelodau yn siarad yn ddilornus â gweithwyr iau, rhywbeth a oedd yn hollol annerbyniol. Roedd y system Clic wedi'i chreu er mwyn sicrhau bod yr holl ymholiadau/materion yn cael eu cofnodi ac fel y gellid rhoi sylw priodol iddynt. Os byddai'r Aelodau yn anfodlon â'r oedi cyn i rywun ddelio â mater penodol, dylent gysylltu ag un o'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol fel y gallai'r uwch swyddogion fynd ar drywydd unrhyw bryderon ar eu rhan. Dywedodd y Prif Weithredwr fod yr egwyddor yn un syml a'r hyn oedd angen ei wneud oedd cofnodi cais am wasanaeth ar Clic a phe byddai oedi afresymol o ran gwireddu'r cais hwnnw, gallai'r Aelodau gysylltu â Swyddog Arweiniol Corfforaethol, un o'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol neu'r Prif Weithredwr. Pe byddai'r Aelodau angen gwybodaeth am fater penodol ac nad cais am wasanaeth oedd dan sylw, dylent anfon neges e-bost at uwch swyddogion a swyddogion canolig fel y gallent gael cyngor. Hefyd, dywedodd y Prif Weithredwr fod toriadau dros y blynyddoedd wedi golygu bod gan y Cyngor erbyn hyn 750 yn llai o staff i ddarparu mwy na 120 o wasanaethau, felly roedd hyn yn cael effaith ar y capasiti i ddelio â

phob ymholiad ar unwaith. Serch hynny, pwysleisiodd y Prif Weithredwr fod ei ddrws ef a phob uwch swyddog arall wastad ar agor i'r Aelodau a nododd mai dyna fu'r neges erioed.

Dywedodd yr Arweinydd ei fod yn croesawu'r sylwadau am yr angen i wella'r system Clic. Fodd bynnag, nid oedd y sylw am Rodney Trotter yn dderbyniol. Dywedodd y Cyngorydd Caryl Roberts fod ei sylw wedi'i gymryd allan o'i gyd-destun ond ei bod, serch hynny, yn glynu wrth ei datganiad ynglŷn â medru cysylltu â'r holl swyddogion yn uniongyrchol fel yr oedd Cynghorwyr gweinyddiaethau'r gorffennol wedi medru gwneud.

CYTUNWYD -

(i) y dylid nodi'r adroddiad er gwybodaeth; ac
(ii) y dylai'r Aelodau dderbyn hyfforddiant ynghylch 'Fy Nghyfrif' a sut mae gosod pin ar fap i ddangos union leoliad y mater dan sylw. Byddai'r hyfforddiant yn cael ei drefnu maes o law.

7 Y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig

Cyflwynodd y Cyngorydd Gareth Davies yr adroddiad am y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Ar ôl hynny, rhoddodd Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael drosolwg o'r prif ystyriaethau a bu iddo hefyd gadarnhau y byddai Gweithdy ynghylch y Gyllideb yn cael ei drefnu i'r Aelodau ym mis Medi er mwyn dechrau ar y broses o bennu Cyllideb 2024/25.

Yn gyffredinol, roedd Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn cael ei diweddarau bob blwyddyn. Yn sgil yr heriau digynsail a wynebwyd yn ystod y broses o bennu'r gyllideb ar gyfer 2023/24, nid oedd yn bosib diweddarau'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn ystod y broses honno a hynny oherwydd bod yr holl ymdrechion wedi mynd tuag at bennu cyllideb gytbwys ar gyfer 2023/24.

Ni ddylid ystyried y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig fel cyllideb fanwl ffurfiol na phendant, yn hytrach, roedd yn cynnig dull trosfwaol y byddai angen i'r Cyngor ei fabwysiadu er mwyn cyflawni ei flaenoriaethau gan gynnwys ystyried yr amgylchedd deddfwriaethol, economaidd allanol a phwysau gwario a chyllid dangosol a ragwelir yn ystod y cyfnod.

Roedd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig felly wedi cael ei diweddarau ac roedd bellach yn cynnwys y cyfnod rhwng 2023/24 a 2026/27. Roedd Crynodeb Gweithredol a oedd yn rhoi sylw i'r prif faterion wedi'i gynnwys yn y Strategaeth fanwl.

Tynnwyd sylw'r Aelodau yn benodol at y materion canlynol:

- Crynodeb Gweithredol
- Blaenoriaethau Cyllideb y Cyngor a'r cysylltiad rhwng y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Strategaeth Gorfforaethol 2022 – 2027 a'r Amcanion Llesiant Corfforaethol cysylltiedig
- Y Pwysau Dangosol ar y Gyllideb o ran Costau

Tudalen 78

- Senarios Bwlch Cyllido'r Gyllideb sy'n edrych ar lefelau gwahanol o gyllid dangosol o ran Treth y Cyngor a chyllid Llywodraeth Cymru
- Dadansoddiad sensitifrwydd o'r gwahanol newidynnau o fewn y gyllideb
- Atodiad 1 - Gwneud Pethau'n Wahanol: Dull Corfforaethol o Weithredu

Ar ôl i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ystyried y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a rhoi adborth amdani, y bwriad oedd cyflwyno'r Strategaeth i'r Cabinet ar 05/09/23 ac yna i'r Cyngor Llawn ar 14/09/23.

Gwnaeth yr Aelodau ar y cyfan ganmol fersiwn ddiweddaraf y Strategaeth, gan nodi bod y Strategaeth wedi'i chyflwyno'n dda a'i bod yn gymharol hawdd ei dilyn a'i deall. Gofynnwyd amrywiaeth o gwestiynau ar wahanol faterion gan gynnwys cynigion Llywodraeth Cymru am yr Ardoll Ymwelwyr Dewisol, y trefniadau ariannu ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd, y sefyllfa ddiweddaraf am ddyfarniadau cyflog y Staff a diwedd cynllun PFI Penweddig.

Hefyd, darparodd y Cynghorydd Elizabeth Evans restr o gwestiynau i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol i'w hystyried ymhellach yng Ngweithdy'r Gyllideb.

CYTUNWYD i nodi fersiwn ddiweddaraf y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

8 Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion.

Cytunwyd i gadarnhau bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir

9 Blaenraglen Waith

CYTUNWYD i nodi'r flaenraglen waith yn amodol ar ystyried protocol cyfathrebu rhwng y Cynghorwyr a'r swyddogion.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 19 Hydref 2023

Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____